# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 14EG RHAGFYR, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 8 Rhagfyr 2023)

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Edgar Wyn Owen | Arwyn Herald Roberts | Menna Baines |
| Jina Gwyrfai | Elfed Wyn ap Elwyn | Meryl Roberts |
| Paul John Rowlinson | Huw Rowlands | |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Angela Russell | Richard Glyn Roberts |
| Rob Triggs | Elwyn Jones |

## Aelodau Lleyg (6)

Sharon Warnes
Hywel Eifion Jones
Clare Hitchcock
Elwyn Rhys Parry
Carys Edwards
Sedd Wag

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 14

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 12 Hydref 2023 fel rhai cywir

**5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR** 15 - 18

I ystyried yr adroddiad a chynnig sylwadau

**6. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU** 19 - 60

I ystyried a derbyn adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru

- Adolygiad o Strategaeth Ddigidol – Cyngor Gwynedd
- Diweddariad Rhaglen Waith ac Amserlen Ch2

**7. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** 61 - 75

Derbyn yr adroddiad, sylwebu ar y cynnwys a chefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi'u cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol

**8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2023/24** 76 - 79

I nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2023/24, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.

**9. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** 80 - 97

I ystyried y cynnwys, cynnig sylwadau ar yr adroddiad, a phenderfynu os am gynnal hunanasesiad

**10. RHEOLAETH TRYSORLYS 2023-24 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** 98 - 108

I dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

**11. CYNGOR GWYNEDD - CYNLLUN ARCHWILIO MANWL (ARCHWILIO CYMRU) 2023** 109 - 130

I ysytried yr adroddiad

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 12fed o Hydref 2023**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Arwyn Herald Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Rob Triggs ac Elfed Wyn ap Elwyn

**Aelodau Lleyg**: Sharon Warnes, Hywel Eifion Jones, Clare Hitchcock, Carys Edwards a Rhys Parry

**Swyddogion:**
Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Siân Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cynaliadwyedd a Datblygiadau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees-Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Caleb Lewis (Cynllun Yfory – Hyfforddai Proffesiynol Cyllid) a Chyfrifeg), Bleddyn Rhys (Arweinydd Archwilio) ac Eva Chan Williams (Arweinydd Archwilio) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)

Eitem 11: Alan Hughes ac Yvonne Thomas (Archwilio Cymru), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) a Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith)

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Menna Baines a'r Cynghorydd Jina Gwyrfai

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi.

4. **COFNODION**

   Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 7fed Medi 2023 fel rhai cywir.

   Eitem 6: Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23 – '*y bwriad o gyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf ynglŷn â chynnal hunan-arfarniad o waith y Pwyllgor'* – nodwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod 14 Rhagfyr 2023.

   Braf oedd gweld Sharon Warnes yn Cadeirio'r cyfarfod a hithau wedi gwella ar ôl cyfnod o waeledd. Diolchwyd i'r Cyng. Paul Rowlinson am gyflwyno Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23 i'r Cyngor Llawn ddiwedd mis Medi yn ei habsenoldeb. Dymunwyd gwellhad buan i Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio)

**5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR**

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag absenoldeb hirdymor staff yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, nodwyd bod staff o fewn y gwasanaeth wedi camu i fyny a bod rheolaeth dda o gyflawni dyletswyddau statudol. Mewn ymateb, cynigiwyd bod eitem cynnyrch archwilio mewnol, ynghyd ag eitem cwynion, yn parhau ar y rhestr am y tro.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad**

Nodyn: Bod eitem cwynion ac eitem cynnyrch archwilio mewnol yn parhau ar y rhestr am y tro

**6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2022/23**

Cyflwynwyd y Datganiad gan y Pennaeth Cyllid. Eglurodd bod y datganiad, er nad yn rhan o'r cyfrifon, yn ddogfen statudol ac angen ei chyhoeddi gyda'r cyfrifon. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Chod ymarfer CIPFA mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod datganiad o reolaeth fewnol yn ei le. Adroddwyd mai'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor sydd yn arwyddo'r datganiad er bod angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Rhoddwyd ychydig o gefndir i'r datganiad sydd yn seiliedig ar Fframwaith CIPFA / SOLACE sydd yn adnabod 7 egwyddor graidd ar gyfer llywodraethu da sydd wedyn yn cael eu rhannu ymhellach i is-egwyddorion. Amlygwyd bod y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn ystyried yr egwyddorion a'r is-egwyddorion hyn gan lunio Cofrestr Risg Llywodraethu sydd yn rhan o Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor. Adnabuwyd risgiau mewn 24 o feysydd llywodraethu gwahanol, gan nodi'r rheolaethau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn lliniaru'r risgiau hynny.

Adroddwyd bod 4 math o risg a bod pob risg gyda pherchnogaeth adrannol; y Grŵp wedi dod i gasgliad bod 0 maes gyda risgiau uchel iawn, 4 maes risgiau uchel, 12 maes risgiau canolig a 9 maes risgiau isel. Nodwyd mai'r meysydd risg uchel oedd, 'Diwylliant', 'Gwybodaeth', 'Iechyd, Diogelwch a Llesiant' a Cyswllt Cwsmer.

Diolchwyd am yr adroddiad. Cyfeiriwyd at bob risg yn ei dro gan roi cyfle i'r Aelodau holi ynglŷn â'r maes hwnnw. Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Cyllid - bod cynyddu risg effaith o 3 i 5 yn ddoeth, ond anghytuno gyda newid y tebygolrwydd o 3 i 2 o ystyried bod 9 allan o 10 Adran yn gorwario. Ategwyd bod y sylwadau yn dderbyniol a bod cynlluniau rheoli yn eu lle, ond nad oedd adroddiadau (megis sefyllfa refeniw a throsolwg arbedion) yn adlewyrchu'r un sefyllfa; bod methiant i reoli cyllideb yn cael effaith ar nifer fawr o drigolion ac yn gorfodi defnydd o arian wrth gefn.

- I'r dyfodol bod angen mwy o eglurhad yn y golofn sylwadau - hynny yw, amlinellu beth yw'r rhesymau tu ôl i'r newid yn yr asesiad e.e., a'i sefyllfa, mater penodol sydd wedi newid neu farn y swyddogion sydd wedi newid
- Cyswllt Cwsmer – bod diffyg ymateb a chwynion i'r gwasanaeth wedi bod yn amlwg ers blynyddoedd – pam felly, mai rŵan mae'r maes yma yn cael ei osod fel maes risg uchel?
- Faint o waith data sydd wedi ei ystyried i asesu'r risgiau i sicrhau bod y farn yn gadarn ? Oes sgôr cysondeb?
- Ydy'r effaith yn gyfwerth ymysg penawdau? Hynny yw, a yw'r un ystyriaeth yn cael ei roi i gysylltiadau allanol a chysylltiadau mewnol? e.e., Cyfoeth Naturiol Cymru v Ffordd Gwynedd
- Bod angen sicrhau perthynas rhwng cyswllt cwsmer a gofal cwsmer - os nad yw'r cysylltiad cyntaf gyda'r Cyngor yn un llwyddiannus yna gall hyn adlewyrchu risgiau pellach, niweidiol e.e., gyda phartneriaethau - rhaid sicrhau enw da, cadw perthynas gref a sicrhau bodlonrwydd cwsmer.
- Bod galw am gyfweliadau gadael yng nghyd-destun cynllunio gweithlu - sgôr risg yn isel o ystyried y sefyllfa. Bod pryder am salwch hir dymor a'r methiant i ddenu staff i gyflawni gwasanaethau'r Cyngor greu effaith sylweddol (staff megis athrawon, cymhorthyddion, staff gofal, staff casglu gwastraff)
- Awgrym, ynghyd a'r datganiad blynyddol, bod adroddiad canol blwyddyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn rhoi diweddariad o'r sefyllfa – yn benodol y 4 maes risg uchel

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd y Pennaeth Cyllid bod y broses sgorio yn cael ei arwain gan gyfuniad o ganfyddiadau neu ddigwyddiadau ac fod elfen o wrthrychedd yn ogystal â â gwyddoniaeth tu cefn i'r broses. Ategodd bod sgôr ymgysylltu e.e., yn cael ei ail asesu oherwydd bod newid mewn deddfwriaeth tra bod cyswllt cwsmer yn cael ei amlygu fel risg uchel oherwydd bod angen ymateb i'r nifer cwynion ar angen i gyflwyno gwelliannau. Derbyniwyd bod tuedd i or-feddwl penawdau a cheisio ffitio'r perfformiad i gategori, ond cadarnhaodd bod y risgiau yn cael eu herio ar lefel gwasanaeth yn y cyfarfodydd herio perfformiad a gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu. Cytunodd bod methiant yn y maes cyswllt cwsmer yn gallu amharu ar holl adrannau'r Cyngor, ac felly bod angen uchafu'r risg i sicrhau bod y maes yn cael sylw priodol fel bod yr ymateb cywir yn cael ei gyflwyno i'r bobl gywir o fewn yr amser cywir.

Ym maes risg Cyllid, derbyniwyd y sylw nad oedd y sgoriau risg yn amlygu gwir sefyllfa ariannol y Cyngor, ond mai adlewyrchiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn y maes ariannol yw'r risg yma, ac fod risg cyllidebol ar wahân yn y gofrestr risg gorfforaethol. Ategodd bod trefniadau cadarn gan y Cyngor i adrodd ar wir sefyllfa ariannol y Cyngor a bod enghreifftiau o dryloywder wedi eu hamlygu yn ddiweddar, e.e., wrth ymateb ac adnabod arbedion i fwlch ariannol 2023/24. Cyfeiriwyd at Gyngor Birmingham lle roedd materion llywodraethu ariannol wedi codi gan nad oeddynt wedi adnabod trefn arfarnu swyddi ac o ganlyniad yn datgan na all fantoli eu cyllideb heb gymorth.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â cholli staff a methiant recriwtio, nodwyd bod camau wedi eu cymryd gan y Cyngor i adfer y sefyllfa a bod gwell sefydlogrwydd i'r sefyllfa erbyn hyn. Ategwyd bod Grŵp Prosiect wedi ei sefydlu i ymateb i'r sefyllfa gan ganolbwyntio ar wneud gwaith i wneud y Cyngor yn fwy deniadol i weithio ynddo. Er hynny, nodwyd bod pocedi o wasanaethau yn dal i gael problemau a bod e.e., gorwariant mewn cyflogi staff asiantaethau yn y maes gofal yn creu effaith ar feysydd gwaith eraill.

Amlinellwyd bod y sgoriau risg yn cael eu hadolygu yn barhaus a bod y meysydd risg uchel yn feysydd lle mae cynlluniau tymor hir wedi cael eu hadnabod i wella'r sefyllfa. Yn y cyfamser bydd Penaethiaid Adran yn adrodd ar y gweithredu ac yn sicrhau bod y gwaith yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Cytunwyd y byddai diweddariad hanner blwyddyn yn cael ei

gyflwyno i'r pwyllgor ac y byddai'r holl sylwadau yn cael eu cyfeirio at y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn a chymeradwyo'r datganiad at bwrpas cael ei arwyddo gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr**

Nodyn:
- Angen ystyried dilyniant gwasanaeth - effaith un maes ar faes arall
- Awgrym, ynghyd a'r datganiad blynyddol, bod adroddiad canol blwyddyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn rhoi diweddariad o'r sefyllfa

**7. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid, oedd yn crynhoi sefyllfa arbedion y Cyngor ac yn gofyn i'r pwyllgor nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion cyn cyflwyno i'r Cabinet 7.11.23.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau, er mwyn cau'r bwlch ariannol eleni, rhaid oedd gweithredu gwerth £7.6 miliwn o arbedion yn ystod 2023/24, sydd yn gyfuniad o bron i filiwn oedd wedi ei gymeradwyo yn flaenorol, arbedion ar gyfer yr Ysgolion o £1.1 miliwn, £3 miliwn ar gyfer adrannau'r Cyngor a £2.4 miliwn pellach drwy adolygu polisi ad-dalu dyled cyfalaf y Cyngor.

Ategwyd, fel sydd wedi cael ei adrodd yn gyson i'r Pwyllgor, bod trafferthion gwireddu arbedion mewn rhai meysydd (y rhai mwyaf amlwg oedd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r maes Gwastraff). Nodwyd, yng Ngorffennaf 2023, adolygwyd yr holl gynlluniau arbedion ac asesu pa gynlluniau oedd bellach yn anghyraeddadwy. Lluniwyd rhaglen i ddileu gwerth £2 filiwn o gynlluniau oedd â risgiau sylweddol i'w cyflawni. Cyfeiriwyd hefyd at y cynlluniau arbedion hanesyddol am gyfnod blwyddyn ariannol 2015/16 hyd flwyddyn ariannol 2023/24ac er bod rhai o'r cynlluniau hyn wedi eu dileu, bod 98%, sef dros £33.7 miliwn o'r £34.3 miliwn o arbedion, bellach wedi eu gwireddu.

Cyfeiriwyd at gynlluniau newydd yn y flwyddyn ariannol gyfredol a bod 81% o arbedion 2023/24 eisoes wedi eu gwireddu gyda 6% pellach i gyflawni'n amserol. Ategwyd bod ychydig o oediad i wireddu gwerth £700k o gynlluniau arbedion 2023/24, ond nad oedd yr Adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu. Adroddwyd bod mwyafrif o'r swm yma, oedd yn cynnwys arbedion o £539k gan ysgolion, yn llithro gan fod yr ysgolion yn gweithio i flwyddyn academaidd, ac felly bydd y gwireddu yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. Trafodwyd gwerth yr arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer 2024/25 ymlaen ynghyd a chynlluniau arbedion a thoriadau pellach ar gyfer 2024/25 sydd eisoes dan ystyriaeth. Bydd y rhain yn destun adroddiad pellach.

Wrth grynhoi, adroddwyd bod £39.1 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu sydd yn 96% o'r £41 miliwn gofynnol dros y cyfnod. Rhagwelwyd y bydd 1% pellach yn cael ei wireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ond y bydd oediad a rhai risgiau i gyflawni'r cynlluniau sydd yn weddill.

Diolchwyd am yr adroddiad. Nodwyd yr angen i ganolbwyntio ar y llwyddiant - bod 96% o'r Arbedion wedi eu gwireddu - y tuedd yw rhoi gormod o ffocws ar y rhai hynny sydd heb eu gwireddu, sydd efallai'r rhai anoddach.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:
- Bod patrwm hanesyddol cyson o orwario yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

- Er bod gorwario mewn deg cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, nid oedd eglurhad clir na rhesymau dros y gorwariant. A oedd Rheolwr Prosiect wedi ei benodi? Angen sicrhau bod trefniadau yn cael eu tynhau a bod gwersi yn cael eu dysgu. Annog i'r Cabinet gwestiynu mwy am y sefyllfa
- Awgrym y dylid ystyried rhoi sylw allanol i'r cynlluniau - adnabod arbenigwyr i edrych yn fanylach ar y sefyllfa
- Bod dyletswydd i rannu gwybodaeth am y cynlluniau arbedion gyda'r Pwyllgor - anodd i'r Pwyllgor roi barn realistig, a'r Pwyllgor yn agored i feirniadaeth am beidio herio yn fwy trylwyr. Angen ystyried sut gall y Pwyllgor gyflawni eu rôl yn well.
- Yn datgan balchder bod 95.6% o'r arbedion wedi ei gwireddu - angen llongyfarch y swyddogion am hyn

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Pwyllgor am eu sylwadau ac ategodd falchder bod swm sylweddol wedi ei arbed. Nododd bod gan y Cynghorwyr hynny sydd yn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adrannau y grym i herio'r sefyllfa ariannol - hyn yn hanfodol.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion**

Nodyn: Argymell i'r Cabinet bod angen herio manwl ar gynlluniau sydd ddim yn cael eu gwireddu - angen sicrhau adolygiad rheolaidd o'r cynlluniau hynny

**8. CYLLIDEB REFENIW 2023/24 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2023**

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor graffu'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau. Nododd ei bryder ynglŷn a gorwariant ym maes anabledd dysgu a diffyg incwm yn y maes gwasaneth gwastraff. Cymerodd y cyfle i ddiolch i staff yr Adran Cyllid am eu gwaith o gwblhau'r wybodaeth ac i aelodau Pwyllgor am eu craffu a cydweithio da.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau bod yr adroddiad yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2023/24, a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd yr adroddiad yma yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet 7 Tachwedd 2023.

Yn dilyn adolygiad diwedd Awst nodwyd bod y rhagolygon yn awgrymu y bydd naw o'r deg adran yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn, gyda gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Addysg, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd. Eglurwyd, dros y blynyddoedd diwethaf bu adrodd rheolaidd ar risgiau i gyflawni rhai cynlluniau arbedion, oedd amlycaf yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac yn y maes Gwastraff. Yn dilyn adolygiad diweddar o'r arbedion nad oedd yn cael eu gwireddu, penderfynwyd dileu gwerth £2 filiwn o gynlluniau arbedion drwy ddefnyddio darpariaeth risg arbedion i'w gyllido. Roedd yr adroddiad felly yn adrodd ar y sefyllfa ariannol yn dilyn dileu yr arbedion hynny.

Tynnwyd sylw at y prif faterion:

- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - rhagolygon diweddaraf yn awgrymu £6.6 miliwn o orwariant, sydd yn gyfuniad o nifer o ffactorau sy'n cynnwys nifer o achosion newydd a chostus llety cefnogol yn y gwasanaeth anabledd dysgu. Yng nghyd-destun gofal cymunedol, nodwyd bod costau staffio uwch a chyfraddau oriau digyswllt yn uchel ac felly'n cael effaith negyddol ar yr incwm a adenillir. Yng nghyd-destun gwasanaethau pobl hŷn, gwelwyd ffioedd uwch gan ddarparwyr

preifat, ond lleihad mewn gyda defnydd cynyddol o staff asiantaeth mewn gwahanol feysydd hefyd yn cyfrannu at y gorwariant

- Adran Addysg - bod tuedd o bwysau cynyddol ar y gyllideb tacsis a bysus ysgolion yn dod yn fwy amlwg eleni, gyda gorwariant o £1.5m yn cael ei ragweld. Nodwyd bod y maes cludiant eisoes wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant ac awgrymwyd bod angen gwneud gwaith pellach i geisio lleihau'r gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.
- Byw'n Iach – gyda covid wedi cael effaith ar incwm Cwmni Byw'n Iach, yn 2022/23 rhoddodd y Cyngor £550k o gefnogaeth ariannol i Byw'n Iach i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Adroddwyd bod y gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol wedi lleihau i £375k.
- Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC - rhagwelir gorwariant o bron i filiwn gan yr adran, gyda lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sy'n cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Yng nghyd-destun maes bwrdeistrefol gwelwyd cyfuniad o resymau, oedd yn cynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Nodwyd hefyd bod colledion incwm cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus, ond cynnydd mewn incwm gan y gwasanaethau profedigaeth sydd yn lleihau'r gorwariant.
- Adran Amgylchedd – bod y tuedd blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau. Nodwyd bod hyn yn gyfuniad o gylchdeithiau ychwanegol sydd wedi arwain at orwariant ar gostau cyflogaeth a chostau fflyd, lefelau salwch a goramser ynghyd a chostau ychwanegol mewn llogi cerbydau.
- Tai ac Eiddo – bod tuedd o weld pwysau sylweddol ar wasanaethau llety dros dro digartrefedd yn parhau i fod yn ddwys iawn; eleni dyrannwyd £3m o Bremiwm Treth Cyngor ynghyd â dyraniad un-tro £1.4m o ddarpariaeth covid corfforaethol i gyfarch y costau ychwanegol.
- Corfforaethol - bod rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2023/24 a lleihad yn y niferoedd sydd wedi hawlio gostyngiad treth cyngor o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Effaith y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog wedi arwain at dderbyniad llog gwerth £1.8 miliwn ychwanegol ac effaith y polisi rheolaeth trysorlys presennol wedi golygu bod modd osgoi benthyca yn allanol. Ategwyd bod tanwariant ar gyllidebau eraill yn cynorthwyo i leddfu'r pwysau ychwanegol a ragwelwyd. (Bydd y cynnydd cenedlaethol i gyflogau gweithwyr Llywodraeth Leol i'w gadarnhau eto).
- Rhagwelir y bydd rhaid gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido'r bwlch ariannol o £5.9 miliwn am 2023/24.

Nodwyd dymuniad yr Aelod Cabinet Cyllid i'r Pwyllgor graffu'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau ac argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiadau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod angen i'r Cabinet edrych ar gynllun gweithredu penodol yr Adran Addysg i ymdrin â materion trafnidiaeth. Er yn derbyn bod chwyddiant a chostau ail dendro diweddar o £833,000 wedi ychwanegu at y broblem, bod y broblem yn un hanesyddol ac angen cynllun arloesol i'w symud ymlaen.
- Bod angen datrys problemau ailgylchu
- Bod angen ystyried dull o godi ffi ar y gwasanaeth Airbnb i godi incwm i'r Cyngor
- Angen ystyried y risg bod lleihad mewn niferoedd disgyblion yn ysgolion Gwynedd a hyn felly yn arwain at leihad mewn cyllid i'r dyfodol
- Angen sicrhau bod arian premiwm ailgartrefi yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaeth digartref yn unig

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau**
2. **Cytuno gyda'r argymhelliad i'r Cabinet:**
    - **Drosglwyddo £3.275k o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor**
    - **Bod gwaith eisoes wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i gael gwell dealltwriaeth o orwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yn gosod rhaglen glir i ymateb i'r sefyllfa**

Nodyn: bod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant, Adran Addysg, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylched

**9. RHAGLEN GYFALAF 2023/34 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2023**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid a eglurodd mai prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf (sefyllfa diwedd Awst 2023) a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Ategodd bod yr adroddiad yn un cadarnhaol a bod y grantiau ychwanegol yn newyddion da.

Cyfeiriwyd at ddadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £178.6 miliwn am y 3 blynedd 2023/24 - 2025/26 ynghyd a'r ffynonellau sydd ar gael i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £78.8 miliwn ers y gyllideb wreiddiol.

Ategodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau,

- bod gan y Cyngor gynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £107.3 miliwn yn 2023/24 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £42.8miliwn (40%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.
- bod effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf gyda £11.5m sef 11% o'r gyllideb wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst eleni, o'i gymharu â 11% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl a 16% ddwy flynedd yn ôl.
- bod £12.5 miliwn pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2023/24 i 2024/25 a 2025/26, gyda'r prif gynlluniau yn cynnwys:
    - £5.7 miliwn Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill)
    - £2.8 miliwn Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar
    - £1.5 miliwn Cynllun Hwb Iechyd a Gofal Penygroes
    - £1.4 miliwn Cynlluniau Sefydliadau Preswyl, Gofal Dydd ac eraill yn y maes Oedolion
    - £0.9 miliwn Cynlluniau Atal Llifogydd

Tynnwyd sylw at restr grantiau ychwanegol roedd y Cyngor wedi llwyddo i'w denu oedd yn cynnwys Grant Cronfa Ffyniant Cyffredin gan Lywodraeth y DU i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru; Grant Cronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth y DU i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru; Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru; Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - Defnydd Cymunedol Ysgolion 2023-2025.

Diolchwyd am yr adroddiad ac i'r swyddogion ar ganfod grantiau ychwanegol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chynnydd sylweddol mewn costau adeiladu sy'n arwain at brosiectau sydd wedi eu cymeradwyo bellach yn fwy costus, nodwyd bod oediad pwrpasol wedi bod i brosiectau tra bod prisiau / chwyddiant yn uchel. Ategwyd bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y llithriadau.

**PENDERFYNIAD:**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor**

**10. DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2023/24 hyd yma, yn erbyn Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2023/24 a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn Mawrth 2023. Nodwyd bod y strategaeth yn gofyn i'r Rheolwr Buddsoddi adrodd ar y dangosyddion yn chwarterol - dyma'r adroddiad cyntaf o'i fath.

Adroddwyd bod y flwyddyn wedi bod yn flwyddyn brysur a llewyrchus iawn i weithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor wrth i'r gweithgaredd aros o fewn y cyfyngiadau a osodwyd. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fethiant i ad-dalu gan y sefydliadau roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda nhw a bod y cyfraddau llog wedi bod yn uchel ac wedi cynhyrchu incwm llog sylweddol.

Ar Fehefin 30ain 2023 roedd y Cyngor mewn sefyllfa gref iawn gyda buddsoddiadau net a hynny oherwydd lefel uchel o fuddsoddiadau a chyfalaf gweithredol. Roedd hyn yn cynnwys arian y Bwrdd Uchelgais a'r Gronfa Bensiwn.

Adroddwyd, yng nghyd-destun buddsoddiadau, bod y gweithgaredd benthyca wedi bod yn ddistaw iawn yn y cyfnod gyda dim ond ad-daliadau benthyg yn digwydd. Ategwyd bod y Cyngor wedi parhau i fuddsoddi gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, Cronfeydd Marchnad Arian, Cronfeydd wedi'i pwlio, Awdurdodau Lleol a Swyddfa Rheoli Dyledion sydd bellach yn gyson gyda'r math o fuddsoddiadau mae'r Gronfa wedi eu gweithredu ers nifer o flynyddoedd bellach.

Cyfeiriwyd at y Meincnod Ymrwymiadau gan nodi ei fod yn arf pwysig i ystyried os yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly yn siapio ffocws strategol a miniogi penderfyniadau. Eglurwyd bod y Cyngor yn disgwyl parhau i fenthyca uwchlaw ei feincnod atebolrwydd hyd at 2025 a hyn oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn gyda'r llif arian hyd yma, wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd yr arian.

Wrth edrych i'r dyfodol, nodwyd, yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol, nad oes angen benthyca yn y tymor hir, ond efallai bydd angen gwneud yn y tymor byr i'r dyfodol agos. Nodwyd bod yr holl weithgareddau wedi cydymffurfio'n llawn gyda chod ymarfer CIPFA ar wahân i un dangosydd (Datguddiad Cyfraddau llog). Eglurwyd bod y dangosydd yma wedi ei osod yn amodau llog isel Mawrth 2023 ac felly'n rhesymol bod y symiau mor wahanol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod angen cywiro ffigwr Meincnod ymrwymiad / Colofn 31.3.24 (Amcan) / Llai: Adnoddau Mantolen o 177.1 i 117.1
- Buasai'r sefyllfa'r Cyngor yn llawer gwaeth oni bai am yr arian wrth gefn

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r dangosydd Datguddiad Cyfraddau Llog o 1%, ac os mae'r Cyngor sydd y gosod yr 1%, cytunwyd bod angen edrych ar well dangosydd, ond ar hyn o bryd bod rhaid adrodd ar y dangosydd presennol.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**

**11. ADRODDIADAU ARCHWILIO Cymru**

**Diweddariad ar adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru 'Adolygiad o Effeithiolrwydd Craffu – Cyngor Gwynedd**

Croesawyd Alan Hughes ac Yvonne Thomas (Archwilio Cymru), Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) a Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith) i'r cyfarfod.

Amlygwyd bod yr adroddiad yn un calonogol. Trafodwyd y darganfyddiadau a cyfeiriwyd at y chwe argymhelliad a gynigwyd gan Archwilio Cymru. Mewn ymateb gan y Cyngor, er yn derbyn bod y gwasanaeth yn mynd i'r cyfeiriad cywir, bod lle i wella ac i finiogi'r trefniadau presennol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod gwahoddiad yn y gorffennol i aelodau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fynychu gweithdai Craffu – angen trefnu sut gall y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fwydo i mewn i'r drefn Craffu.
- Bod yr adroddiad yn optimistig. Y Pwyllgorau Craffu yn 'cynnig barn,' ond dim effaith i'w weld ar benderfyniadau. Bod ymdeimlad mai cyflwyno gwybodaeth yw'r nod - aelodau yn cwestiynu lle mae eu grym o ddylanwadu ar benderfyniadau
- A oes gwerth cynnal ymarferiad o beidio cynnal pwyllgorau am flwyddyn fel modd o weld os oes gwahaniaeth?
- Bod angen sicrhau cynllun gweithredu fyddai'r sicrahu bod craffu yn rhoi grym a phwysau ar wneud penderfyniadau
- Bod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ail sefydlu'r gweithgor gwella i ymdrin â meysydd sydd yn achosi pryder - byddai hawl craffu hynny?
- Bod angen gwell cydweithio rhwng y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu
- Bod angen gwell cydweithio rhwng y Pwyllgorau Craffu ac Archwilio Cymru - yn y gorffennol cynhaliwyd cyfarfodydd ar y cyd

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd Swyddog Archwilio Cymru bod y broses craffu, yn ddelfrydol yn cynnig allbynnau o ansawdd ac argymhellion clir, ond nad oedd cofnodion craffu Cyngor Gwynedd ar ffurf argymhellion, hynny yw nid oedd yr allbwn yn weladwy. Derbyniwyd bod rhai rhwystredigaethau, ond y gobaith yw cyflwyno allbynnau o ansawdd a sefydlu proses craffu o werth fyddai'n plethu i raglen waith y Cyngor. Cyfle da yma i finiogi trefniadau ac amlygu craffu.

Ategodd y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith bod rhwystredigaeth gyda chyfundrefn y Cyngor a pherthynas craffu gyda'r Cabinet, ac er yn derbyn bod Aelodau Cabinet perthnasol yn cael eu gwahodd i'r cyfarfodydd craffu, bod angen cryfhau'r berthynas a miniogi'r argymhellion. Eglurwyd bod tri Pwyllgor Craffu (Addysg ac Economi, Cymunedau a Gofal) gyda 18 aelod etholedig (+ aelodau cyfetholedig ar y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi)

Ategodd y Pennaeth Cyllid bod rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn un i graffu risgiau a threfniadau llywodraethu'r Cyngor ac nad oedd grym y Pwyllgor yn isafol i'r Pwyllgorau Craffu oedd yn craffu meysydd penodol a pholisïau'r Cyngor. Nododd bod Cyngor Gwynedd yn dilyn gofynion Deddf Rheoliadau Craffu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

Nodyn: Angen ystyried trefn fel y gall gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fwydo i mewn i'r drefn Craffu

## 12. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2023 hyd 30 Medi 2023. Amlygwyd bod 8 o archwiliadau Cynllun Gweithredu 2023/24 wedi eu cwblhau gyda phump ohonynt yn dangos lefel sicrwydd uchel a thri yn dangos lefel sicrwydd digonol. Nododd y Pennaeth Cyllid bod lefelau staffio'r Adran yn isel ar hyn o bryd oherwydd bod un aelod o staff ar salwch tymor hir, un ar secondiad ac un arall ar gyfnod mamolaeth. Canmolwyd Bleddyn Rhys ac Eva Williams am arwain y gwasanaeth yn ystod y cyfnod yma.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chyflwyno diweddariad ar gynllun archwilio 2023/24 nodwyd mai anodd yw cynllunio ymlaen gyda'r lefelau staffio presennol o fewn yr Uned, ond bod bwriad cyflwyno'r Cynllun addasedig i gyfarfod mis Rhagfyr 2023. Derbyniwyd yr awgrym i 'barcio' rhai archwiliadau am gyfnod a blaenoriaethu'r rhai ar risg uchel, ond amlygwyd bod hyn eisoes yn cael ei weithredu. Nodwyd hefyd bod bwriad gweithio tuag at gynllun mwy hyblyg i'r dyfodol yn hytrach na gosod cynllun gyda chyllideb o amser penodol. Byddai hyn yn creu proses o gwblhau gwaith i'r safon gorau yn hytrach na gosod 'cynllun' penodol ar gyfer y gwaith. Ategwyd bod nifer o gynghorau bellach yn symud i weithredu heb gynllun penodol.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw fater gyda risg uchel a bod hyn yn newyddion da. Ategwyd diolch y Pennaeth Cyllid i Bleddyn Rhys ac Eva Williams am arwain y gwasanaeth dros gyfnod salwch tymor hir y Rheolwr Archwilio.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2023 hyd 30 Medi 2023**
- **Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 13:15

____________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **14 RHAGFYR 2023** |
| TEITL | **GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau’r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau’r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.

1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd I'r aelodau fod trefniadau llywodraethu’r Cyngor yn gweithredu’n effeithiol.

1.3 Mae’r eitem hon yn gyfle i holl aelodau’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae’r weithrediad wedi ei gwblhau, neu lle nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae’r llinell yn cael ei dynnu o’r tabl ar ôl i’r Pwyllgor ystyried y mater.

## 2. PENDERFYNIADAU ERS SEFYLDU’R CYNGOR NEWYDD (MAI 2022)

**Cyfarfod 17 Tachwedd 2022**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2021/22 | • Derbyn bod trefniadau a pherfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaeth yn effeithiol iawn<br>• Bod yr adroddiad, i’r dyfodol, yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn y Cabinet<br><br>Awgrymiadau:<br>• Cynnwys sylw ar yr effaith gadarnhaol mae cwynion yn cael ar berfformiad y Cyngor<br>• Cynnwys crynodeb o’r prif feysydd / meysydd datblygol sydd yn derbyn cwynion<br>• Categoreiddio neu osod cyd-destun ehangach ar gyfer yr adrannau hynny sydd yn derbyn y mwyafrif o gwynion, fel bod modd deall yr amgylchiadau<br>• Y Cadeirydd i ail ymweld â chyfrifoldebau’r Pwyllgor - a oes angen rhoi trosolwg ar ‘holl adrannau’r Cyngor’ (gan gynnwys Gwasanaethau Gofal ac Addysg sydd â threfn statudol eu hunain)? | **Yr adroddiad diweddaraf am y flwyddyn 2022/23 wedi ei gyflwyno i Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 7 Medi 2023 ac i’r Cabinet 19 Medi 2023.** |

**Cyfarfod 9 Chwefror 2023**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
| --- | --- | --- |
| DIWEDDARIAD AR ADRODDIADAU SYDD WEDI EU CYHOEDDI YN DDIWEDDAR GAN ARCHWILIO CYMRU | • Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion 'Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021<br>• Cyflwyno adroddiad ymhen 6 mis i ddiweddaru'r Pwyllgor ar drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd fel bod modd symleiddio llywodraethu ac osgoi dyblygu rhwng y ddau gorff<br>• Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion ''Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio" | **O safbwynt trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, mae'r cynllun yn symud yn ei flaen ar lefel rhanbarthol. Dyddiad targed trosglwyddo yw 1 Ebrill 2024.** |
| CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad<br>• Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol<br>• Cais am ddiweddariad o Archwiliad Diogelwch Tacsis (lefel sicrwydd cyfyngedig)<br><br>• Bod angen cyfeirio'r mater o ddiffyg gweithredu gweithdrefnau rheolaethol mewn Cartrefi Gofal i'r Pwyllgor Craffu Gofal | **Diogelwch Tacsis yn destun archwiliad dilynol eleni. Gwaith dilyniant wedi ei wneud yn ystod mis Medi a'r adroddiad yn derfynol ar 4ydd o Hydref 2023.**<br><br>**Eitem Cartrefi Gofal wedi ei ystyried yng Ngweithdy Blynyddol Pwyllgor Craffu Gofal ar 09/05/23. Blaenoriaethwyd yr eitem gan ei raglennu ar gyfer cyfarfod 23/11/23 ar raglen waith drafft 2023/24. Gwaith dilyniant yn parhau wrth i 3 Gartref arall dderbyn archwiliad llawn.**<br><br>**Diweddariad 14/12/23: Mae'r canlynol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor ar 14 o Ragfyr 2023; Cartref Plas Maesincla a Plas Ogwen ynghyd â dilyniant ar Hafod Mawddach, Bryn Blodau a Plas Gwilym. Mae adroddiad drafft wedi ei chyhoeddi ar gyfer Cefn Rhodyn.** |

**Cyfarfod 25 Mai 2023**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad.<br>• Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol.<br>• Cyfeirio 3 maes cyfyngedig i'r Gweithgor Gwella.<br>1. Cynllunio – Trefniadau Cyfarthrebu<br>2. Mesurau Diogel Amddiffyn Rhyddid<br>3. Manddaliadau | **Oherwydd absenoldeb salwch hirdymor yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, nid yw'r Gweithgor Gwella Rheolaethau wedi cyfarfod eto.** |
| ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad yn unol a gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2022/23.<br>• Ail-sefydlu Gweithgor Gwella Rheolaethau. | **Gweler uchod parthed y Gweithgor Gwella Rheolaethau.** |

**Cyfarfod 12fed o Hydref 2023**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2022/23 | Derbyn a chymeradwyo'r datganiad at bwrpas cael ei arwyddo gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.<br>Nodyn:<br>• Angen ystyried dilyniant gwasanaeth - effaith un maes ar faes arall.<br>• Awgrym, ynghyd a'r datganiad blynyddol, bod adroddiad canol blwyddyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn rhoi diweddariad o'r sefyllfa. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION | Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion.<br>Nodyn: Argymell i'r Cabinet bod angen herio manwl ar gynlluniau sydd ddim yn cael eu gwireddu - angen sicrhau adolygiad rheolaidd o'r cynlluniau hynny. | **Dim gweithrediad pellach.** |

| | | |
|---|---|---|
| CYLLIDEB REFENIW 2023/24 – ADOLYGIAD DIWEDD Awst 2023 | 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau<br>2. Cytuno gyda'r argymhelliad i'r Cabinet:<br>• Drosglwyddo £3.275k o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.<br>• Bod gwaith eisoes wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i gael gwell dealltwriaeth o orwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yn gosod rhaglen glir i ymateb i'r sefyllfa<br>Nodyn: bod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion Iechyd. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| RHAGLEN GYFALAF 2023/34 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2023 | Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS | Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU | Derbyn yr adroddiad. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2023 hyd 30 Medi 2023<br>• Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol | **Dim gweithrediad pellach.** |

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y tablau uchod a chynnig unrhyw sylwadau.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 14eg Rhagfyr |
| **TEITL YR EITEM** | ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU |
| **AMCAN** | Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru – Adolygiad o Strategaeth Ddigidol – Cyngor Gwynedd |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru |

**1. CEFNDIR**

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.

1.3. Mae copi o adroddiad 'Adolygiad o Strategaeth Ddigidol – Cyngor Gwynedd' wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1** gyda dogfen ymateb rheolwyr wedi ei gynnwys fel **Atodiad 2** sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad. Bydd Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid a Huw Ynyr, Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth yn mynychu'r cyfarfod i osod cyd-destun ac ymateb i unrhyw gwestiynau os oes angen**.**

# Adolygiad Strategaeth Ddigidol – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3729A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru..

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Crynodeb o'r adroddiad 4

Adroddiad manwl

Yr hyn yr edrychom arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn 6

Pam yr ymgymerwyd â'r archwiliad hwn 6

Strategaeth ddigidol y Cyngor 7

Yr hyn a chanfuom: nid oes gan y Cyngor ddull strategol o ymdrin â digidol ac nid yw wedi dangos y bydd ei strategaeth ddigidol nesaf yn cael ei datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Atodiadau

Atodiad 1: cwestiynau allweddol a meini prawf archwilio 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb o'r adroddiad

**Arddangos 1: crynodeb o'r adroddiad**

Mae'r arddangosfa isod yn crynhoi'r rheswm y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn, ein canfyddiadau allweddol a'n hargymhellion ar gyfer y Cyngor.

**Pam mae dull strategol o ymdrin â digidol yn bwysig**

1 Mae technoleg ddigidol yn allweddol i ddarparu ystod eang o wasanaethau'r cyngor mewn ffordd fwy economaidd, effeithlon ac effeithiol, mae hefyd yn ffordd bwysig i gynghorau gyflawni eu hamcanion lles ac yn cyflawni datblygu cynaliadwy.

2 Gall cael dull strategol clir o ymdrin â digidol ddod â sawl budd megis:

- sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer defnyddio digidol a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer cymunedau lleol sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y Cyngor;
- helpu i sicrhau bod defnydd cynghorau o dechnoleg ddigidol yn cyd-fynd â'u hamcanion strategol allweddol a chynlluniau a strategaethau eraill a'i fod yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol;
- lleihau'r risg o ddyblygu o fewn cynghorau a chyda phartneriaid;
- ystyried adnoddau digidol dros y tymor byr, canolig a hir gyda'n gilydd; a
- darparu fframwaith i fonitro cynnydd yn ei erbyn dros y tymor byr, hir a chanolig.

**Ffocws ein harchwiliad**

3 Gwnaethom edrych i ba raddau y datblygwyd dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

**Ein canfyddiadau allweddol**

4 Nid oes gan y Cyngor ddull strategol cyfredol o ymdrin â strategaeth ddigidol neu strategaeth ddigidol gymeradwy neu gyfwerth. Mae absenoldeb dull strategol yn golygu nad yw'r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn cynllunio dros amserlen briodol, wedi'i lywio gan ystyriaethau perthnasol a chyfranogiad rhanddeiliaid. Mae hefyd yn golygu nad yw'r Cyngor wedi ystyried goblygiadau adnoddau ei ymagwedd at ddigidol dros y tymor byr a'r tymor hwy ac nad yw wedi datblygu mesurau i fonitro cynnydd wrth ei weithredu.

**Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor**

**Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth**

A1 Er mwyn helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol nesaf yn wybodus a bod ei adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol, wrth ddatblygu ei strategaeth, dylai'r Cyngor ddefnyddio tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys;

- cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y strategaeth ddigidol yn ogystal â thynnu ar farn rhanddeiliaid o ffynonellau presennol
- amcanion a strategaethau cyrff cyhoeddus eraill, a nodi cyfleoedd i gydweithio
- dadansoddiad o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol (gweler ein meini prawf archwilio ar gyfer C.1.1 a Ch1.2 yn **Atodiad 1** i gael rhai enghreifftiau o'r hyn y gallai hyn gynnwys)

**Nodi goblygiadau adnoddau**

A2 Helpu i sicrhau bod Mae ei strategaeth ddigidol nesaf yn gyflawnadwy, dylai'r Cyngor nodi'r goblygiadau adnoddau tymor byr a hirdymor o'i gyflawni ynghyd ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd a fwriadwyd.

**Trefniadau ar gyfer monitro gwerth am arian**

A3 Er mwyn gallu monitro gwerth am arian ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro ei gynnydd a'i effaith dros y tymor byr, canolig a'r tymor hwy.

# Adroddiad manwl

## Yr hyn yr edrychom arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn

1 Gwnaethom adolygu dull strategol Cyngor Gwynedd (y Cyngor) o ymdrin â digidol, ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

2 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda sampl o aelodau'r cabinet ac uwch swyddogion. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom y gwaith hwn ym mis Mai 2023.

3 Aethom ati i ateb y cwestiwn '**Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?** Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A yw strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei llywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol?
- A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae am ei gyflawni drwy ddefnyddio technoleg ddigidol?
- A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol?
- A yw'r Cyngor wedi rhoi adnoddau i gyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddarparu manteision hirdymor/ataliol?
- A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd?
- Ydy'r Cyngor yn dysgu gwersi o sut mae'n gweithio?

4 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau manwl yr oeddem yn bwriadu eu hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

## Pam yr ymgymerwyd â'r archwiliad hwn

5 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

6 Rydym yn ceisio:

- rhoi sicrwydd y bydd strategaethau digidol cynghorau yn helpu i gyflawni amcanion llesiant mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;
- rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio eu strategaethau digidol;

- esbonio sut mae cynghorau'n defnyddio/cynllunio i ddefnyddio technoleg ddigidol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau gwell canlyniadau; ac
- ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu enghreifftiau o arfer/dulliau nodedig lle bo hynny'n berthnasol.

## Strategaeth ddigidol y Cyngor

7 Ers i'w Strategaeth TG flaenorol ddod i ben yn 2018, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu yn absenoldeb strategaeth ddigidol. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cadeirio Bwrdd Trawsnewid Digidol i gynnal prosiectau ymchwil drwy ei is-grwpiau ar gyfer pedwar maes penodol. Mae'r rhain yn ddata, gweinyddol, cyswllt cwsmeriaid a thechnegol.

8 Adeg ein gwaith maes ym mis Mai 2023, roedd y Cyngor yn paratoi strategaeth ddigidol newydd. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu cynnydd y Cyngor bryd hynny tra'n cydnabod bod gan y Cyngor fwy o waith i'w wneud cyn y byddai'r strategaeth newydd ar gael i aelodau graffu arni. Ym mis Mai 2023, roedd swyddogion yn bwriadu cyflwyno strategaeth ddigidol newydd i aelodau yn nhymor yr hydref 2023. O ran trefniadau monitro, mae'r Cyngor wedi ein hysbysu y bydd yr Adran Gyllid a Thechnoleg Gwybodaeth yn adrodd ar gynnydd y Cynllun a'i brosiectau yn unol â threfniadau i herio a chefnogi perfformiad corfforaethol. Ac y bydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar yr hyn a gyflawnir. Nid oedd y trefniadau hyn ar waith pan wnaethom gyflawni ein gwaith.

9 Mae gan y Cyngor Strategaeth Ysgolion Digidol gyda'r nod o *gefnogi dysgu digidol i sicrhau'r cyfle gorau i ddisgyblion Gwynedd*.

10 Mae rhai prosiectau digidol cyfredol a chynlluniedig hefyd i'w gweld yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28, yn ogystal â'i gynllun asedau deng mlynedd a'i Gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur saith mlynedd.

# Yr hyn a chanfuom: nid oes gan y Cyngor ddull strategol o ymdrin â digidol ac nid yw wedi dangos y bydd ei strategaeth ddigidol nesaf yn cael ei datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy

### Nid yw'r Cyngor wedi defnyddio ystod eang o ffynonellau tystiolaeth i helpu i lywio ei strategaeth ddigidol

11 Nid yw'r Cyngor wedi defnyddio ystod eang o dystiolaeth i lywio ei strategaeth ddigidol nesaf. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o faterion fel anawsterau wrth recriwtio

pobl â sgiliau digidol, ond nid yw datblygiad ei strategaeth ddigidol nesaf wedi cael ei lywio'n dda gan dystiolaeth o ffynonellau fel:

- cynaliadwyedd gwasanaeth/gwytnwch a heriau adnoddau;
- anghenion y cyhoedd a'r gymuned;
- achosion sylfaenol y galw cyfredol/materion i'w datrys; a
- dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol a sut y gallent effeithio, gan gynnwys, er enghraifft, cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol, amgylcheddol, diwylliannol neu dechnolegol.

12 Mae tystiolaeth gyfyngedig bod y Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol. Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol nesaf, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar amserlen gymharol tymor byr ac nid yw wedi datblygu cerrig milltir tymor canolig a thymor hirach a fyddai'n ei alluogi i asesu effaith a gwerth am arian y prosiectau digidol unigol.

13 Nid yw'r Cyngor wedi ystyried yn llawn sut y bydd ei strategaeth ddigidol nesaf yn cyfrannu at ei Amcanion Llesiant. Bydd y strategaeth ddigidol nesaf yn cyd-fynd â chefnogi rhai o'r rhaglenni yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 ond ni fydd o reidrwydd yn cael ei chynhyrchu i gefnogi amcanion llesiant y Cyngor yn uniongyrchol. Nid yw'r Cyngor ychwaith wedi ystyried sut y bydd ei strategaeth ddigidol nesaf yn cyd-fynd â Strategaeth Ddigidol Cymru Llywodraeth Cymru, y nodau llesiant cenedlaethol nac amcanion llesiant cyrff eraill y sector cyhoeddus. Byddai alinio ei strategaeth â chyrff cyhoeddus eraill yn lleihau'r risg o ddyblygu ac yn helpu i nodi cyfleoedd i sicrhau manteision lluosog.

14 Asesodd y Cyngor sut y gallai'r Strategaeth Ysgolion Digidol gyfrannu at amcanion llesiant y Cyngor a'r nodau llesiant cenedlaethol cyn eu cymeradwyo. Mae'r strategaeth hefyd yn cyfrannu at weledigaeth cais twf Gogledd Cymru a Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru. Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol gorfforaethol nesaf, efallai y bydd rhywfaint o ddysgu i'r Cyngor o'r broses a gymerodd i ddatblygu ei Strategaeth Ysgolion Digidol 2021.

## Nid yw'r Cyngor wedi nodi'r rhanddeiliaid y mae angen iddo eu cynnwys wrth ddatblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol nesaf

15 Mae'r Cyngor wedi penderfynu peidio ag ymgynghori â'r cyhoedd i ddatblygu ei strategaeth ddigidol nesaf er mai'r bwriad yw canolbwyntio'n benodol ar y cwsmer. Felly, nid yw'n cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl y mae ei strategaeth ddigidol yn effeithio arnynt i helpu i sicrhau bod y strategaeth yn diwallu eu hanghenion. Bydd hefyd yn bwysig i'r cyngor sicrhau bod elfennau penodol o'r cynllun yn adlewyrchu anghenion defnyddwyr gwasanaeth, drwy ddefnyddio gwybodaeth ymgynghori sy'n bodoli eisoes a'u cynnwys wrth ddylunio. Mae peidio â chynnwys dinasyddion wrth ddatblygu dull strategol y Cyngor, neu ei gyflawni, yn peryglu dylunio dulliau nad ydynt yn diwallu anghenion dinasyddion ac felly nad ydynt yn sicrhau gwerth am arian.

16 Nid yw'r Cyngor wedi ystyried pa bartneriaid posibl y gallai weithio gyda nhw wrth ddatblygu a chyflawni ei ddull strategol o ymdrin â digidol. Byddai mapio pwy a sut y gallai weithio gyda phartneriaid yn helpu'r Cyngor i gael sicrwydd ei fod wedi nodi'r holl gyfleoedd priodol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Gallai hefyd helpu i nodi cyfleoedd i wella gwerth am arian wrth gyflawni ei strategaeth ddigidol. Bydd monitro effeithiolrwydd unrhyw drefniadau partneriaeth y mae'r Cyngor yn ymrwymo iddynt hefyd yn rhan bwysig o drefniadau i'r Cyngor sicrhau ei fod yn sicrhau gwerth am arian.

17 Yn absenoldeb dull strategol clir o ymdrin â digidol, nid oes dealltwriaeth gyffredin ymhlith aelodau a swyddogion o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni. Efallai y bydd rhwystrau mewnol i gyflawni ei strategaeth ddigidol nesaf yn llwyddiannus oni bai bod aelodau a swyddogion yn deall yr hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni a'r goblygiadau posibl i ddefnyddwyr gwasanaeth. Bydd dealltwriaeth gyffredin a chydgysylltiedig o'r dull strategol y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gymryd yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

## Nid yw'r Cyngor wedi nodi goblygiadau adnoddau hirdymor ei strategaeth ddigidol nesaf

18 Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r strategaeth ddigidol nesaf yn y tymor byr wedi'u cyfrifo eto ac nid yw'r adnoddau tymor hwy sydd eu hangen i'w darparu wedi'u nodi. Mae'r Cyngor wedi ystyried a chymeradwyo cost oes gyfan ar gyfer y Strategaeth Ysgolion Digidol, ond dim ond ar gyfer dwy flynedd gyntaf y strategaeth ddigidol gorfforaethol y sicrheir cyllid ar adeg cael ei ystyried gan graffu a'i gymeradwyo gan y Cabinet a'r Cyngor.

19 Nid yw'r Cyngor wedi cyfrifo unrhyw arbedion y gall ei wneud drwy weithredu ei strategaeth ddigidol. Bydd y Cyngor yn defnyddio dull 'methu'n gyflym' o ran mentrau digidol a allai ymddangos yn llai buddiol na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae gwerthuso a yw prosiectau digidol wedi cyflawni arbedion arfaethedig yn elfen bwysig o fonitro gwerth am arian prosiectau unigol a'r strategaeth ddigidol yn gyffredinol.

20 Nid yw'r Cyngor wedi ystyried sut y gallai ddyrannu adnoddau i sicrhau gwell canlyniadau dros y tymor hwy. Er enghraifft, buddsoddi mewn technoleg ddigidol a allai arwain at gostau sylweddol ymlaen llaw ond sy'n gwireddu effeithlonrwydd a gwell canlyniadau dros y tymor hwy. Byddai ystyried a fyddai adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio orau i ddarparu buddion dros y tymor hwy yn ei helpu i ddangos ei fod yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hefyd yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

## Mae gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro cynnydd

21 Mae'r Cyngor wedi nodi trefniant posibl i fonitro perfformiad yn erbyn amcanion tymor byr a chanolig ar gyfer prosiectau digidol unigol, ond nid yw wedi sefydlu sut y bydd yn asesu effaith ei strategaeth ddigidol nesaf yn ei chyfanrwydd. Hefyd, nid yw wedi cynnal dadansoddiad buddion cost ar gyfer prosiectau digidol unigol. Mae'r Cyngor ond wedi rhannu un adroddiad cynnydd ar y prosiectau parhaus ers i strategaeth TG 2016-2018 ddod i ben. Yn absenoldeb strategaeth ddigidol, ni fu unrhyw adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion strategol tymor byr a hirdymor mewn perthynas â digidol. Mae monitro cyflawni amcanion ar gyfer dull strategol y Cyngor a phrosiectau digidol unigol yn bwysig er mwyn deall effaith buddsoddiad y Cyngor mewn digidol, ac felly trefniadau i sicrhau gwerth am arian.

## Nid yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei ddull strategol o ymdrin â digidol neu rannu gwersi a ddysgwyd yn rheolaidd

22 Mae gwersi anffurfiol a ddysgwyd o Strategaeth TG 2016-2018 blaenorol a threfniadau gweithio hybrid y pandemig yn hysbys i'r Cyngor. Er nad ydynt yn myfyrio ar ddiffyg gweithgarwch cydweithredol neu gyfranogi, ac nid yw'r Cyngor yn coladu'r rhain ar lefel strategol.

23 Mae'r Cyngor yn adolygu cynnydd ei Strategaeth Ysgolion Digidol 2021 gyda mesurau sy'n seiliedig ar gamau gweithredu ond nid yw wedi adolygu effeithiolrwydd ac effaith y Strategaeth. Trwy beidio â rhannu gwersi a ddysgwyd yn rheolaidd o weithredu ei strategaethau digidol, mae'r Cyngor mewn perygl o golli cyfleoedd i wella prosesau, canlyniadau a'i drefniadau i sicrhau gwerth am arian. Gallai cwblhau a rhannu adolygiadau ôl-weithredu hefyd helpu'r Cyngor i asesu a yw wedi cyflawni ei nodau gwreiddiol a dysgu gwersi i wella prosiectau'r dyfodol.

# Atodiad 1

## Cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio

Isod mae'r cwestiynau y gwnaethom geisio eu hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

Prif gwestiwn archwilio: **Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

**Arddangos 2: cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio**

| Cwestiwn Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
| --- | --- | --- |
| 1. A yw strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei llywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol? | 1.1 A oes dealltwriaeth drylwyr o'r 'fel y mae' (h.y. y galw/materion cyfredol i'w datrys) a'r rhesymau pam/achosion sylfaenol?<br><br>1.2 A oes dealltwriaeth drylwyr o'r ffactorau hirdymor a fydd yn effeithio a'r heriau a'r cyfleoedd a allai ddeillio (e.e. risgiau a chyfleoedd)? | • Mae'r Cyngor wedi defnyddio ystod eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o'r 'fel y mae' a sut mae'n debygol o newid. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth (gan gynnwys data) sy'n ymwneud â:<br>– Cynaliadwyedd gwasanaeth/gwytnwch a heriau adnoddau.<br>– Anghenion y cyhoedd a'r gymuned.<br>– achosion sylfaenol y galw/materion cyfredol i'w datrys.<br>– Dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol a sut y gallent effeithio, e.e. cymdeithasol, economaidd/gwleidyddol, amgylcheddol, diwylliannol neu dechnolegol. Gallent gynnwys tueddiadau hysbys e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, lleihau adnoddau naturiol ac yn enwedig datblygiadau technolegol. Efallai y byddan nhw hefyd yn cynnwys y rhai sydd â lefel uwch o ansicrwydd, e.e. swyddi a sgiliau sydd eu hangen yn y dyfodol.<br>• Mae'r dadansoddiad o'r 'fel y mae' a sut mae'n debygol o newid yn cael ei lywio'n dda gan weithgarwch cyfranogi, fel y bo'n briodol, sy'n adlewyrchu arfer da cydnabyddedig (e.e. Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, cyngor ac arweiniad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru). |

| Cwestiwn Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| | | • Mae'r Cygnor yn defnyddio ei sylfaen dystiolaeth yn effeithiol i:<br>– nodi camau yn ei ddull strategol o ymdrin â digidol sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol a pham, gan gynnwys sut y gallent fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau;<br>– llywio penderfyniadau ynghylch ei ddefnydd o dechnoleg ddigidol sy'n ceisio cydbwyso'r angen i gyflawni amcanion tymor byr a thymor hwy. |
| 2. A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae am ei gyflawni drwy ddefnyddio technoleg ddigidol? | 2.1 A yw'r Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried beth mae tymor hir yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o ymdrin â digidol – h.y. pa mor bell ymlaen y gall / y dylai gynllunio a pham (o leiaf ddeng mlynedd gan ystyried tueddiadau tymor hwy fel y bo'n briodol).<br>• Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall camau gweithredu sicrhau'r effaith orau dros yr amserlen honno o ran canlyniadau a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Gallai hyn gynnwys ystyried pwyntiau ymyrraeth priodol sy'n gysylltiedig â diffiniad y Comisiynydd o atal. (Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn: Gan ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebol – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru).<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi mesurau ar gyfer ei strategaeth ddigidol sy'n adlewyrchu effeithiau tymor byr a hirdymor a gwerth am arian, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu cynnydd fel y bo'n briodol.<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi sut y bydd ei strategaeth ddigidol yn cael adnoddau dros y tymor hwy cyn belled ag sy'n ymarferol (gweler meini prawf sy'n ymwneud ag integreiddio hefyd). |
| | 2.2 A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei strategaeth ddigidol eu cael, gan gynnwys:<br>• Sut y gallai gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol?<br>• sut y bydd cyflawni yn effeithio ar y pethau eraill y | • Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall ei strategaeth ddigidol wneud cyfraniad ar draws y nodau llesiant.<br>• Mae staff sy'n datblygu'r strategaeth ddigidol yn deall beth mae cydweithwyr a phartneriaid yn ei wneud a sut mae eu gwaith yn ymwneud â nhw, ac wedi ceisio integreiddio eu gwaith gyda gwaith eu cydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor a chyda sefydliadau partner.<br>• Mae integreiddio yn amlwg wrth alinio'r strategaeth ddigidol â strategaethau corfforaethol allweddol eraill a chynlluniau gwasanaeth. Er enghraifft, cynllun |

| Cwestiwn Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| | mae'n ceisio eu cyflawni (h.y. ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach)?<br>• sut y bydd cyflawni yn effeithio ar eraill yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni (h.y. eu hamcanion llesiant)? | ariannol tymor canolig, cynllun gweithlu, strategaethau rheoli asedau, datganiad llesiant a chynlluniau lleihau carbon.<br>• Mae'r strategaeth ddigidol yn cyd-fynd â dibenion strategol eraill fel:<br>– profiad y cwsmer;<br>– rheoli galw/gostyngiadau mewn methiant ac atal galw; a<br>– dylunio a gweithredu modelau cyflenwi gwasanaeth newydd.<br>• Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cyd-fynd â chynlluniau/strategaethau partneriaid lleol a chenedlaethol gan gynnwys Strategaeth Ddigidol a chynlluniau llesiant Llywodraeth Cymru. |
| | 2.3 A oes dealltwriaeth eang a chyffredin o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni? | • Mae gan gynghorwyr ac uwch swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth ddigidol ddealltwriaeth gyffredin a chlir o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni a'r effaith arfaethedig ar ddarparu gwasanaethau.<br>• Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei chyfleu'n glir i staff a phartneriaid a allai helpu i'w chyflawni. |

| Cwestiwn Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| 3. A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol | 3.1 A yw'r Cyngor wedi nodi pwy sydd angen ei gynnwys? | • Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o bwy fydd yn cael ei effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan ei strategaeth ddigidol a phwy y mae angen iddo ei gynnwys.<br>• Mae'r Cyngor i bob pwrpas wedi cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, gan gynnwys o ffynonellau anhraddodiadol ac o'r rhai y gallai fod wedi methu â chyrraedd o'r blaen. |
| | 3.2 A yw'r Cyngor i bob pwrpas yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl y mae ei strategaeth ddigidol yn effeithio arnynt? | • Mae'r Cyngor wedi darparu cyfleoedd gwirioneddol i bobl ddylanwadu ar ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol o gam cynnar, gan gynnwys cynrychiolwyr grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.<br>• Mae'r Cyngor wedi defnyddio canlyniadau cyfranogiad i lunio dyluniad a chyflwyniad ei strategaeth ddigidol. |
| | 3.3 A yw'r Cyngor yn cydweithio'n effeithiol â'r partneriaid cywir? | • Mae'r Cyngor yn cydweithio i sicrhau ei fod yn cyflawni gwell canlyniadau a gwerth am arian drwy ei strategaeth ddigidol ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i gefnogi hyn, er enghraifft:<br>– rhannu neu rannu arbenigedd ac adnoddau;<br>– rhannu gwybodaeth;<br>– sicrhau monitro, gwerthuso ac atebolrwydd effeithiol gan gynnwys ystyried gwerth am arian. |

| Cwestiwn Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| 4. A yw'r Cyngor wedi rhoi adnoddau i gyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddarparu manteision hirdymor/ataliol? | 4.1 A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau adnoddau tymor hir? | • Mae'r Cyngor wedi asesu costau a manteision defnyddio technoleg ddigidol i fuddsoddi mewn dulliau ataliol tymor hir a'r gost (ariannol ac o ran canlyniadau) o beidio â gwneud hynny.<br>• Mae'r Cyngor wedi meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno i gyflawni ei strategaeth ddigidol dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes cyfan) a sut y gallai reoli risgiau/cwrdd â'r costau hynny, gan gynnwys, er enghraifft, cynlluniau 'buddsoddi i arbed' a gostyngiadau rheoledig mewn dyled dechnegol.<br>• Mae'r Cyngor wedi cyfrifo a nodi unrhyw arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud drwy weithredu ei strategaeth ddigidol. |
| | 4.2 A yw'r Cyngor yn dyrannu adnoddau i sicrhau gwell canlyniadau dros y tymor hir? | • Mae camau gweithredu (gan gynnwys camau ataliol) sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau a/neu ddefnydd o adnoddau dros y tymor hwy yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi, hyd yn oed:<br>– lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion tymor byr;<br>– lle mae'r buddion yn debygol o gael eu cronni gan, neu eu priodoli i sefydliad arall. |

| Cwestiwn Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| 5. A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd? | 5.1 A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a thymor hwy? | • Mae'r Cyngor yn monitro costau a manteision cyflawni ei strategaeth ddigidol o safbwynt gwerth am arian.<br>• Mae'r Cyngor yn mesur y cyfraniad ehangach y mae'r strategaeth ddigidol yn ei wneud ar draws ei amcanion ei hun/partneriaeth.<br>• Caiff cynnydd ei fesur yn erbyn amcanion tymor byr, canolig a thymor hir. |
| 6. Ydy'r Cyngor yn dysgu gwersi o sut mae'n gweithio? | 6.1 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol yn rheolaidd, gan gynnwys:<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cydweithredol;<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cyfranogi, gan gynnwys effaith y strategaeth ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol;<br>– effaith y strategaeth ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig;<br>– economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y strategaeth ddigidol yn gyffredinol wrth helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol.<br>• Mae'r Cyngor wedi adolygu gwersi a ddysgwyd o'i ymateb i'r pandemig ac mae'n cymhwyso'r dysgu hwn i'w strategaeth ddigidol. |
| | 6.2 A yw'r Cyngor yn rhannu gwersi a ddysgwyd o'i ymagwedd at ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgwyd o ddatblygu a chyflwyno ei strategaeth ddigidol yn eang ar draws y sefydliad, a gyda phartneriaid lle bo hynny'n berthnasol. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales

Gwefan www.audit.wales

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Ymateb sefydliadol

**Enw 'r adroddiad:** Adolygiad o Strategaeth Ddigidol – Cyngor Gwynedd

**Dyddiad cwblhau:** Hydref 2023

**Cyfeirnod y ddogfen:** 3729A2023

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | **Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth**<br>**A1** Er mwyn helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol nesaf yn wybodus a bod ei adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol, wrth ddatblygu ei strategaeth, dylai'r Cyngor ddefnyddio tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys; | **Mae'r Cynllun Digidol wedi ei rannu'n helaeth ar gyfer sylwadau ynghyd â chynigion i gydweithio, gan gynnwys oll o Gynghorau Cymru, swyddfa ddigidol WLGA, CDPS, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a Phrifysgol Bangor.**<br><br>**Mae ymgysylltu helaeth wedi digwydd yn fewnol yn y Cyngor, gan gynnwys cynnal** | **Cwblhawyd yn barod ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Digidol gwreiddiol (07.11.2023)**<br><br>**Tasg barhaus ar gyfer cadw'r Cynllun yn gyfredol** | **Pennaeth Cynorthwyol Cyllid (Technoleg Gwybodaeth)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| - cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y strategaeth ddigidol yn ogystal â thynnu ar farn rhanddeiliaid o ffynonellau presennol<br>- amcanion a strategaethau cyrff cyhoeddus eraill, a nodi cyfleoedd i gydweithio<br>- dadansoddiad o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol (gweler ein meini prawf archwilio ar gyfer C.1.1 a Ch1.2 yn Atodiad 1 i gael rhai enghreifftiau o'r hyn y gallai hyn gynnwys) | **gweithdy blaenoriaethu a chynnwys newydd gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Penaethiaid Cynorthwyol a'r Rhwydwaith Rheolwyr.**<br><br>**Aethpwyd â'r Cynllun Digidol gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 14.09.2023 i geisio barn cyn ei gyflwyno'n derfynol i'r Cabinet. Cafwyd croeso gwresog i'r Cynllun a sylwadau dilys a defnyddiol a fwydwyd yn ôl i'r Cynllun cyn iddo barhau ar ei daith i'r Cabinet.**<br><br>**Defnyddiwyd ffynonellau niferus ar gyfer paratoi'r Cynllun Digidol a gymeradwywyd gan Gabinet y Cyngor ar Dachwedd 7fed, 2023, gan gynnwys datblygiadau'n y maes digidol, tueddiadau gwasanaethau, goblygiadau amgylcheddol, darpar fuddsoddiadau ar isadeiledd gan Uchelgais Gogledd Cymru, a strategaethau digidol sefydliadau eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.**<br><br>**Ar ôl ei gyflwyno i'r Cabinet ar Dachwedd 7fed, 2023, fe fydd adolygiad parhaus o'r Cynllun gyda newidiadau mewn technoleg, hinsawdd ariannol neu anghenion ein gwasanaethau yn cael eu hystyried, a all arwain at gyflwyno newidiadau, fel y cadarnheir yn sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid:**<br><br>***"Bydd y Cynllun Digidol dan adolygiad parhaus ac rwyf yn fodlon na fyddai mabwysiadu'r Cynllun yn rhagfarnu'r drefn bidio. Petai prinder cyllid yn golygu fod rhai*** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | *o'r bidiau yn aflwyddiannus byddwn yn ail-flaenoriaethu cynnwys y Cynllun yn unol â'r angen."* | | |
| A2 | Nodi goblygiadau adnoddau<br>A2 Helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol nesaf yn gyfiawnadwy, dylai'r Cyngor nodi'r goblygiadau adnoddau tymor byr a hirdymor o'i gyflawni ynghyd ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd a fwriadwyd. | Mae dadansoddiad llawn wedi'i gyflawni ar gyfer yr adnoddau sydd eu hangen i wireddu gweledigaeth y Cynllun Digidol, ynghyd â nodi cyfleoedd am arbedion effeithlonrwydd. Cyflwynwyd y prosiectau a'r cais am gefnogaeth adnoddau ychwanegol i'r drefn bidiau corfforaethol, yn unol â'r cynlluniau a nodwyd yn yr adroddiad oedd yn cefnogi cyflwyno'r Cynllun Digidol ar gyfer ei gymeradwyaeth i Gabinet y Cyngor ar Dachwedd 7fed, 2023:<br><br>*" Mae gwaith manwl wedi'i wneud yng nghyswllt costau cychwynnol rhoi'r Cynllun ar waith. Mae'r costau adnabuwyd yn gyfuniad o rai cyfalaf a refeniw un-tro, a refeniw parhaol. Mae cronfa benodol wedi'i chlustnodi ers peth amser ar gyfer costau un-tro, a bydd modd gwireddu sawl elfen o'r prosiectau dan sylw trwy ddefnyddio'r adnodd ariannol hwn. Bydd angen, fodd bynnag, rhoi ystyriaeth i'r oblygiadau refeniw parhaol o fewn y drefn bidiau corfforaethol yn flynyddol."*<br><br>Mae sylw pellach y Prif Swyddog Cyllid yn nodi:<br><br>*" Mae pob prosiect unigol yn y Cynllun Digidol wedi cael ei gostio, ac fel nodir bod y costau hynny yn gyfuniad o refeniw parhaol, refeniw* | Wedi ei gwblhau yn barod (07.11.2023) | Pennaeth Cynorthwyol Cyllid (Technoleg Gwybodaeth) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ***un-tro a chyfalaf. Mae adnoddau un-tro wedi eu clustnodi ar gyfer y Cynllun Digidol ar ffurf cronfa, a gallaf gadarnhau fod bidiau am refeniw parhaol wedi eu cyflwyno yn unol â threfniadau arferol y Cyngor."*** | | |
| **A3** | **Trefniadau ar gyfer monitro gwerth am arian**<br>**A3** Er mwyn gallu monitro gwerth am arian ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro ei gynnydd a'i effaith dros y tymor byr, canolig a'r tymor hwy. | **Mae trefniadau monitro cynnydd wedi'u nodi'n yr adroddiad a gyflwynwyd i Gabinet y Cyngor ar Dachwedd 7fed, 2023:**<br><br>***" Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gwireddu a monitro'r rhaglen waith fel a ganlyn. Yr Adran Technoleg Gwybodaeth a Chyllid sy'n gyfrifol am wireddu'r Cynllun Digidol yng Nghynllun y Cyngor, a Phennaeth Cynorthwyol yr adran honno yw'r Rheolwr Prosiect. Mae'r Bwrdd Trawsnewid Digidol wedi'i ffurfio i gadw trosolwg ar gynnydd y rhaglen waith a chynnig her a chefnogaeth, a hynny'n ychwanegol i'r trefniadau herio a chefnogi perfformiad arferol – hyn i gydnabod pa mor allweddol yw datblygiad yn y maes digidol i'n gallu fel Cyngor i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol."***<br><br>**Mae cyfeirio pellach at y trefniadau monitro i'w canfod yng nghorff y Cynllun Digidol, gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn nodi:**<br><br>***" Bydd adolygiad blynyddol cynhwysfawr ynghyd ag adroddiadau cynnydd rheolaidd yn ein galluogi i fonitro cyfraniad y*** | **Wedi ei gwblhau yn barod (07.11.2023)** | **Pennaeth Cynorthwyol Cyllid (Technoleg Gwybodaeth)** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | *prosiectau unigol i'r weledigaeth ehangach gan dderbyn, o ystyried y datblygiadau cyson mewn technoleg ddigidol, y bydd angen peth addasu ar y blaenoriaethau, hyd yn oed o fewn oes y Cynllun."*<br><br>**Cyfyd cofnod llawn o'r drefn llywodraethu ym mhennod olaf y Cynllun sy'n dwyn y pennawd "Trefniadau Llywodraethiant".** | | |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 14eg o Ragfyr 2023 |
| **TEITL YR EITEM** | Adroddiadau Archwilio Cymru |
| **AMCAN** | Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar raglen waith Chwarter 2 Archwilio Cymru |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru |

**1. CEFNDIR**

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Er mwyn hwyluso'r gwaith mae Archwilio Cymru yn paratoi diweddariad chwarterol ar waith y cyrff adolygu ac mae copi o'r ddogfen hon ar gyfer Chwarter 2 2023/24 wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**.

1.3. Cyflwynwyd adroddiad ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb i gynigion neu argymhellion i gyfarfod y Pwyllgor hwn ar y 7fed o Fedi 2023. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ar yr 8fed o Chwefror 2024.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Gwynedd

## Diweddariad Chwarterol: 30 Medi 2023

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023**. | Rhagfyr 2023 | Adroddiad drafft i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023. |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwilio Datganiadau Cyfrifon y Cyngor a'i Is Gyd-bwyllgorau 2022-23** | Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. | Rhagfyr 2023 | Daeth Datganiad o gyfrifon Cyngor Gwynedd i law ar 30 Mehefin 2023.<br>Daeth Ffurflen Flynyddol y Cydbwyllgor Polisi Cynllunio, yr Harbyrau a Chyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru i law ar 26 Mai 2023.<br><br>Mae'r gwaith archwilio bron â chael ei gwblhau. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio Ffurflenni Grant:**<br><br>Cyfraniadau Pensiynau Athrawon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen:<br>• Heb ei nodi'n deg<br>• Heb fod yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor yw'r diwrnod gwaith olaf ym mis Mai 2023.<br><br>Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2023. | Daeth y ffurflen i law ar 23 Awst 2023. Mae'r archwiliad wedi dechrau. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant:**<br>Ardrethi Annomestig 2022-23 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen:<br>• Heb ei nodi'n deg<br>• Heb fod yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Mehefin 2023.<br><br>Dyddiad cau ardystio 17 Tachwedd 2023. | Daeth y ffurflen i law ar 8 Awst 2023. Mae'r archwiliad wedi dechrau. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant:**<br>Cymhorthdal Budd-dal Tai 2022-23 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen:<br>• Heb ei nodi'n deg<br>• Heb fod yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Ebrill 2023.<br><br>Dyddiad cau ar gyfer ardystio yw 31 Ionawr 2024 (i'w gadarnhau). | Daeth y ffurflen i law ar 4 Mai 2023. Nid yw'r archwiliad wedi dechrau eto. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | | |
| | • Sefyllfa ariannol | Monitro'r sefyllfa ariannol yn barhaus | Mynd rhagddo |
| | • Rheoli'r rhaglen gyfalaf | Medi – Rhagfyr 2023 | Ni fydd Archwilio Cymru yn gwneud gwaith manwl ym mhob cyngor fel rhan o'n rhaglen waith 2022-23 Rydym wrthi'n archwilio ein hopsiynau ar gyfer gwneud darn o waith manwl ar y pwnc hwn naill ai yn 2023-24 neu yn y blynyddoedd i ddod. |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| | • Defnyddio gwybodaeth am berfformio – gan ganolbwyntio ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau | Chwefror – Rhagfyr 2023 | Ar y gweill – adroddiad drafft wedi'i rhannu â'r Cyngor. |
| | • Gosod amcanion llesiant | Chwefror – Rhagfyr 2023 | Ar y gweill – adolygiad o'r ddogfen yn mynd rhagddo. |
| **Adolygiad Thematig – Gofal Heb ei Drefnu** | Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion yn allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty, yn ogystal ag atal derbyniadau i'r ysbyty. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu atebion tymor canolig i dymor hwy. | Awst 2022 – Gorffennaf 2023 | Gwaith maes bron â chael ei gwblhau, adrodd o fis Rhagfyr 2023 ymlaen. |
| **Adolygiad thematig – Digidol** | Adolygiad o ddull gweithredu strategol cynghorau o ran digidol, ac i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau cynghorau. | Ionawr – Hydref. | Ar y gweill – adroddiad drafft wedi'i rhannu â'r Cyngor. |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2023-24 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 | Mynd rhagddo |
| **Adolygiad thematig – Cynaliadwyedd Ariannol** | Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol cynghorau gan gynnwys canolbwyntio ar y gweithredoedd, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau mewn cyllid a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig. | Mawrth – Mehefin 2024 | Cwmpasu |
| **Adolygiad thematig – comisiynu a rheoli contractau** | Adolygiad sy'n canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu, a rheoli contractau yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Ionawr – Gorffennaf 2024 | Cwmpasu |
| **Prosiect Lleol – Gwastraff ac Ailgylchu** | Byddwn yn adolygu trefniadau'r Cyngor i wella ei wasanaeth rheoli gwastraff a chyrraedd targedau ailgylchu statudol. | I'w gadarnhau | Cwmpasu |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – Adfywio tir llwyd** | Adolygiad o sut mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo a galluogi defnyddio anheddau annomestig gwag a safleoedd tir llwyd yn well. | Hydref 2022 – Medi 2023 | Drafftio'r adroddiad – i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023 | Ie – cyfweliad gyda swyddog enwebedig mewn saith cyngor ac arolwg. |
| **Llywodraethiant awdurdodau diben arbennig – Parciau Cenedlaethol** | Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethiant | Tachwedd 2022 – Medi 2023 | Drafftio'r adroddiad – i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023. | Na |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cyd-bwyllgorau Corfforedig** | Asesu cynnydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth iddynt ddatblygu eu trefniadau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a nod Llywodraeth Cymru o gryfhau cydweithio rhanbarthol. | Medi 2022 – Awst 2023 | Anfonwyd llythyrau unigol at y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. Adroddiad cryno cenedlaethol i'w gyhoeddi ym mis Hydref/Tachwedd 2023. | Ie – Fe wnaethom archwilio safbwynt y Cyngor trwy ein cyfarfodydd cyswllt arferol.<br>Roedd y gwaith maes yn cynnwys cyfweliadau gyda'r prif weithredwr, cyfarwyddwr cyllid a chadeirydd pob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. |
| **Llywodraethu mewn Awdurdodau Tân ac Achub** | Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethiant | Medi 2023 – Mawrth 2024 | Rhyddhawyd briff y prosiect | Na |
| **Digartrefedd** | Archwilio sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r ymateb i ddigartrefedd. | I'w gadarnhau | Cwmpasu | I'w gadarnhau |

## Estyn

Mae ein harolygwyr cyswllt yn parhau i weithio gyda Thorfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol. Cafodd awdurdod lleol Wrecsam ei ddileu o'r categori peri pryder sylweddol yn dilyn ymweliad monitro ym mis Gorffennaf. Gwnaethom arolygu Gwynedd yn yr wythnos yn dechrau 26 Mehefin a Sir Gaerfyrddin yn yr wythnos yn dechrau 10 Gorffennaf. Mae'r ddau adroddiad wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Byddwn yn arolygu gwasanaeth addysg llywodraeth leol Conwy yn yr wythnos yn dechrau 6 Tachwedd.

Mae gwaith maes a wneir ar draws awdurdodau lleol yn ystod tymor yr hydref yn cynnwys ffocws ar bresenoldeb, gwella ysgolion a gwaith yr awdurdod lleol i liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad dysgwyr.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith arfaethedig AGC 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau thematig** | | | |
| **Timau Anabledd Dysgu Cymunedol (CLDT)** | Gan weithio gydag AGIC, byddwn yn cwblhau sampl bach o arolygiadau CLDT ar y cyd yn 2024. Byddwn yn defnyddio'r dull hwn i werthuso ac ystyried ein dull o arolygu ar y cyd. | 2024-25 | Cynllunio |
| **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid – 10 mlynedd yn ddiweddarach** | Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag AGIC i ystyried ein dull a'n gwaith dilynol ar yr adroddiad: Adolygiad cenedlaethol o ddefnyddio Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yng Nghymru (agic.org.uk) a wnaed yn 2014. | 2024-25 | Cwmpasu |

| Gwaith arfaethedig AGC 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Llwybr Strôc** | Gan weithio ar y cyd ag AGIC, cyhoeddwyd Adolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion: taith drwy'r llwybr strôc (agic.org.uk) yn ddiweddar. | Cwblhawyd | Wedi'i gyhoeddi |
| **Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** | Diben yr adolygiad<br>Rhoi proses graffu allanol ar waith, rhoi sicrwydd a hyrwyddo gwelliannau o ran ansawdd arferion mewn cysylltiad â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.<br>I ystyried i ba raddau y mae arferion wedi symud ymlaen ers cyhoeddi 'Adolygiad Cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus' a chyhoeddi adroddiad gweithgor amlinelliad cyfraith gyhoeddus 2021 gan gynnwys canllawiau arferion gorau. | Ar y gweill | Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023 |
| **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**<br>**Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-23** | Cyhoeddwyd adroddiad 2020-21 ar 7 Chwefror 2021<br><br>Mae adroddiad 2021-2022 ar y gweill | Wedi'i gyhoeddi<br><br>I'w gadarnhau | Wedi'i gyhoeddi<br><br>Yn cael ei baratoi |

| Gwaith arfaethedig AGC 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)** | Byddwn yn cwblhau dau arolygiad aml-asiantaeth arall ar y cyd.<br><br>Mae'r canfyddiadau yn dilyn Cyngor Sir Ddinbych wedi'u cyhoeddi – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Sir Ddinbych 2023 \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Mae'r canfyddiadau yn dilyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'u cyhoeddi – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Pen-y-bont ar Ogwr 2023 \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol ddiwedd gwanwyn 2024. | Ebrill 2023 – Ebrill 2024 | Cyflawni |
| **Adolygu perfformiad Awdurdodau Lleol** | Rydym yn parhau i arolygu Awdurdodau Lleol yn unol â'n Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru ar gyfer ein gweithgarwch arolygu awdurdodau lleol \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Sut rydym yn arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru | Mynd rhagddo | Mynd rhagddo |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ers mis Medi 2022

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Gweithlu'r GIG – briff ar ddata | Medi 2023 |
| Arallgyfeirio Incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru | Medi 2023 |
| Dulliau o sicrhau sero net ledled y DU | Medi 2023 |
| Llamu Ymlaen: Gwersi o'n gwaith ar y gweithlu ac asedau (mewn llywodraeth leol) | Medi 2023 |
| Diweddariad offeryn data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol (yn dilyn diweddariad arfaethedig yn hydref 2023) | Medi 2023 |
| Offeryn data cyllido'r GIG – hyd at 31 Mawrth 2023 | Medi 2023 |
| Adroddiadau budd y cyhoedd – Cyngor Tref Rhydaman a Chyngor Cymuned Llanferres | Medi 2023 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd | Awst 2023 |
| 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru | Awst 2023 |
| Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE – y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig | Mehefin 2023 |
| Cynhwysiant Digidol yng Nghymru (gan gynnwys cwestiynau allweddol i gyrff cyhoeddus) | Mawrth 2023 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros | Mawrth 2023 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd | Chwefror 2023 |
| Pryniant Llywodraeth Cymru o Fferm Gilestone | Ionawr 2023 |
| Gyda'n gilydd fe allwn ni – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau | Ionawr 2023 |
| Darlun o Reoli Perygl Llifogydd | Rhagfyr 2022 |
| 'Cyfle Wedi'i Golli' – Mentrau Cymdeithasol | Rhagfyr 2022 |
| Offeryn Data ar Dlodi | Tachwedd 2022 |
| 'Amser am newid' – Tlodi yng Nghymru | Tachwedd 2022 |
| Dysgu o ymosodiadau seiber | Hydref 2022 (dosbarthwyd yn breifat i gyrff archwiliedig) |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21 | Hydref 2022 |
| Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Hydref 2022 |
| Taliad i Gyn-ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth | Medi 2022 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Hwyluso Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio? | Medi 2022 |
| Pennu amcanion llesiant – Llywodraeth Cymru | Medi 2022 |
| Cynllunio a rheoli’r gweithlu gan Lywodraeth Cymru | Medi 2022 |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru (gwaith sy’n mynd rhagddo / wedi'i gynllunio)[1, 2]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: dilyniant (llythyr i’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) | Hydref 2023 |
| Llywodraethu ansawdd y GIG | Hydref/Rhagfyr 2023 |
| A465 Adran 2 – diweddariad | Tachwedd/Rhagfyr 2023 |
| Gwasanaethau ffoaduriaid o Wcráin | Rhagfyr 2023/Ionawr 2024 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Gallai gwaith dilynol hefyd arwain at allbynnau eraill, yn ogystal â gwaith archwilio lleol eraill lle rydym o'r farn bod rhagoriaeth mewn allbwn cryno cenedlaethol o ryw fath.

[2] Rydym hefyd wedi cyhoeddi papur ar ein gwefan – Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026 – sy'n rhoi manylion ychwanegol am ein gwaith cenedlaethol (gan gynnwys adolygiadau thematig lleol). Yn ogystal â'r gwaith newydd y byddwn yn ei wneud yn 2023-24, mae'r papur yn cynnwys manylion am bynciau dangosol i'r gwaith ddechrau yn 2024-24 neu 2025-26.

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Adolygiad o strategaeth ddigidol llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol | Ionawr 2024 |
| Defnydd llywodraeth leol o wybodaeth am berfformiad, canlyniadau a phersbectif defnyddwyr gwasanaethau – crynodeb cenedlaethol | Tachwedd/Rhagfyr 2022 |
| Tai fforddiadwy | Chwefror/Mawrth 2024 |
| Teithio llesol | Gwanwyn 2024 |
| Gwasanaethau canser | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Canolfan Ganser Felindre | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Buddsoddi cyfalaf a seilwaith Llywodraeth Cymru | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth (y sector cyhoeddus cyfan ac yn Cyfoeth Naturiol Cymru) | Gwaith ymchwil a datblygu yn mynd rhagddo o fis Medi i fis Rhagfyr 2023. Casglu data gyda grwpiau cynrychioliadol. Bydd allbynnau yn llywio unrhyw waith archwilio pellach. |
| Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac uwch – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Yr uwch wasanaeth cyhoeddus | I'w gadarnhau (cwmpasu ar ddechrau 2024) |
| Heriau i'r sector diwylliannol | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Ailgydbwyso gofal a chymorth | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Mynd i'r afael â rhestrau aros y GIG | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Pwyllgorau Archwilio. 'Sut beth yw da?'. Gwaith ymchwil a datblygu i ddeall y dirwedd pwyllgorau archwilio eang ar draws pob sector yng Nghymru. Allbynnau i gefnogi digwyddiadau Cyfnewid Arferion Da a gwaith archwilio posibl yn y dyfodol. | Gwaith Ymchwil a Datblygu Medi – Rhagfyr 2023<br>Digwyddiad Arferion Da Gwanwyn 2024 |

## Digwyddiadau ac adnoddau'r Gyfnewidfa Arfer Da

| Teitl | Dolen i'r adnodd |
|---|---|
| **O'r Strategaeth i Fodolaeth Sut mae'r digidol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau bob dydd** Bydd y digwyddiad hwn yn cymryd golwg ymarferol a gonest ar y dirwedd ddigidol yng Nghymru, a bydd yn cynnig syniadau ymarferol ar gyfer sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector a fydd yn eu helpu i gael y gwerth gorau am arian. | 27 Medi 2023 09:00 – 13:00 – Gogledd Cymru – I gofrestru ar gyfer Gogledd Cymru<br><br>5 Hydref 2023 09:00 – 13:00 – Caerdydd – I gofrestru ar gyfer Caerdydd |
| **Gweithio mewn partneriaeth i wella llesiant** Bydd y digwyddiad hwn yn dod â Phartneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chymuned C4C at ei gilydd i rannu cynlluniau llesiant ar draws ardal Gogledd Cymru, yn ogystal â rhannu'r gwaith arloesol sydd yn cael ei wneud gan sawl sector ym maes llesiant yn ein cymunedau. Bydd y digwyddiad yn rhoi cyfleoedd i drafod sut y gellir cysylltu'r gwaith hwn gyda'i gilydd i gyflawni newid gwirioneddol. | 24 Hydref 2023 09:30 – 16:30<br>I gofrestru ar gyfer Gogledd Cymru<br>Dyddiau Caerdydd i'w gadarnhau |

| Teitl | Dolen i’r adnodd |
|---|---|
| **Gonestrwydd yn y sector cyhoeddus** ‘Caiff ymddiriedaeth ei meithrin a’i chynnal drwy gymhwysedd, dibynadwyedd a gonestrwydd, yn ogystal â meithrin perthnasoedd dilys a chadarn rhwng y sector cyhoeddus a’r cyhoedd y mae’n eu gwasanaethu. Mae hynny’n golygu bod yn rhaid i’r sector cyhoeddus fod yn atebol am reoli a darparu gwasanaethau a chanlyniadau cyhoeddus, am gyfeiriad a rheolaeth y gwaith y mae’n ei wneud, yr adnoddau y mae’n eu rheoli, ac am ei ymddygiad a’i foeseg.’ Bydd y digwyddiad hwn yn edrych ar sut y gall gwasanaethau cyhoeddus hyrwyddo diwylliant o uniondeb. | 5 Rhagfyr 2023 10:00 – 12:00 Ar-lein<br>I gofrestru |
| **Podlediad: Archwilio Cydnerthedd Cymunedol** Yn rhifyn hwn o'r Gyfnewidfa mae ein tîm Llywodraeth Leol yn trafod rhai o'r ffactorau sy'n achosi tlodi yng Nghymru, yn ogystal â'r gwerth a ddarperir gan fentrau cymdeithasol, a phwysigrwydd cadw cyfoeth mewn cymunedau. | **I wrando** |

## Blogiau Diweddar Archwilio Cymru

| Teitl | Dyddiau cyhoeddi |
|---|---|
| Diogelwch Adeiladau – A ydym wedi dysgu o Grenfell? | 1 Awst 2023 |
| Helpu pobl i helpu eu hunain | 15 Chwefror 2023 |
| Storm berffaith – yr argyfwng costau byw a cham-drin domestig | 21 Tachwedd 2022 |
| Mae mynd i’r afael â thlodi yn golygu mynd i’r afael â’r data ar dlodi | 11 Tachwedd 2022 |
| Costau byw a rhoi’r fidog i gadw | 21 Medi 2022 |
| Mae pethau'n poethi i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd | 18 Awst 2022 |
| Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru | 15 Mehefin 2022 |

| Teitl | Dyddiau cyhoeddi |
|---|---|
| Gofal heb ei drefnu yng Nghymru – system dan bwysau cynyddol | 21 Ebrill 2022 |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **14 RHAGFYR 2023** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 TACHWEDD 2023** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Hydref 2023 hyd 30 Tachwedd 2023.

**2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD**

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 30 Tachwedd 2023:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol (2023/24) | 6 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30 Tachwedd 2023, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Cartref Plas Maesincla | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Digonol | Atodiad 1 |
| Cartref Plas Ogwen | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Digonol | Atodiad 2 |
| Dilyniant - Cartref Preswyl Hafod Mawddach | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Digonol | Atodiad 3 |
| Dilyniant - Cartref Preswyl Bryn Blodau | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Digonol | Atodiad 4 |
| Dilyniant - Cartref Preswyl Plas Gwilym | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Digonol | Atodiad 5 |
| Unedau Diwydiannol | Tai ac Eiddo | Tai ac Eiddo | Uchel | Atodiad 6 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

**3. GWAITH AR Y GWEILL**

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 30 Tachwedd 2023:

- Cronfeydd Answyddogol Ysgolion (*Addysg*)
- Grant Darpariaeth Addysg ôl-16 (*Addysg*)
- Gwastraff Gardd (*Amgylchedd*)
- Gwastraff Swmpus (*Amgylchedd*)
- Dilyniant – Trefniadau Cyfathrebu Cynllunio (*Amgylchedd*)
- Rheolaeth Categori Corfforaethol (*Corfforaethol*)
- Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau (*Corfforaethol*)
- Trefniadau Diogelu – Sefydliadau (*Corfforaethol*)
- Rheolaethau Allweddol Budd-Daliadau (*Cyllid*)
- Dilyniant – Mesurau Diogelu Amddiffyn Rhyddid (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Cartref Cefn Rodyn (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Incwm Masnachol (*Priffyrdd, Peirianneg a YGC*)
- Dilyniant – Manddaliadau (*Tai ac Eiddo*)

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Hydref 2023 hyd at 30 Tachwedd 2023, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

## CARTREF PLAS MAESINCLA

**1. Cefndir**

1.1 Mae cartref Plas Maesincla wedi ei leoli yng Nghaernarfon ac mae'n darparu cefnogaeth gofal tymor-hir, tymor-byr, seibiant a gofal dydd i hyd at 23 o breswylwyr.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 3 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Mae cartrefi gofal wedi bod drwy gyfnod anodd gydag effaith Covid ynghyd â phrinder staffio a heriau recriwtio yn amharu ar y gwasanaeth. Adroddodd y Rheolwr bod y cartref wedi derbyn ymweliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn Medi 2023 ond nid oedd eu hadroddiad wedi ei chyhoeddi ar amser yr archwiliad.

5.2 Detholwyd sampl o 10 o aelodau staff y cartref gan gynnwys staff dydd, nos ac achlysurol er mwyn gwirio cofnodion hyfforddiant Symud a Thrin, Diogelu a Chymorth Cyntaf. Gofynnir i staff gwblhau’r cyrsiau yma a’u hadnewyddu pob 3 mlynedd. Er bod sawl un yn y sampl wedi cwblhau’r cyrsiau gwelwyd nad oeddynt wedi eu hadnewyddu o fewn y cyfnod 3 mlynedd. Roedd 7 allan o 10 gyda chymhwyster Symud a Thrin cyfredol, 2 allan o 10 gyda chymhwyster Cymorth Cyntaf cyfredol a 7 allan o 10 wedi cwblhau’r cwrs Diogelu yn y 3 mlynedd diwethaf. Roedd y Rheolwr yn ymwybodol bod hyfforddiant rhai wedi rhedeg allan gydag ambell un wedi dod i ben yn ystod y cyfnod Covid a gwelwyd bod rhai wedi cael llefydd ar gyrsiau dros y misoedd nesaf. Mae’n rhaid sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd yn y cartref yr unrhyw adeg sydd yn rhwystro’r gallu i bawb fynychu cwrs, yn ogystal â’r nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael ar y cyrsiau.

5.3 Fel aelod o staff Cyngor Gwynedd mae disgwyl i bob aelod o staff gwblhau'r 7 modiwl e-ddysgu mandadol sef: Diogelu Data, Cydraddoldeb, Diogelu, Cam-drin Domestig, Atal, Iechyd a Diogelwch ac Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg. Gwelwyd bod 6 allan o’r 10 wedi cwblhau’r modiwl ‘Cam-drin Domestig’ a ‘Diogelu’ ond niferoedd bach iawn oedd wedi cwblhau’r modiwlau eraill e.e. un yn y sampl wedi cwblhau’r modiwl ‘Atal’, 2 sydd wedi cwblhau’r modiwl ‘Cydraddoldeb’.

5.4 Mae gan y cartref drefniadau ar gyfer cyfrif a chofnodi meddyginiaeth y preswylwyr yn ddyddiol. Yr aelod o staff sydd yn darparu’r dôs diwethaf o’r dydd, boed yn ystod dydd neu gyda’r nos sydd yn gyfrifol am gyfrif a chofnodi'r nifer sydd ar ôl yn y paced ar daflenni cofnodion gweinyddu meddyginiaeth unigol y preswylwyr (Medication Administration Record - MAR). Dylai’r nifer gyd-fynd gyda’r cofnod diwethaf a’r nifer sydd wedi eu cymryd yn ystod y dydd. Gwiriwyd sampl o’r cofnodion yma yn erbyn y meddyginiaethau perthnasol, a gwelwyd rhai achosion lle nad oeddynt yn cytuno. Yn ogystal, dylai dau aelod o staff wirio’r nifer cychwynnol o’r feddyginiaeth, cofnodi’r dyddiad a nodi eu blaenlythrennau ar y taflenni MAR ond nid oedd hyn wedi digwydd ym mhob achos. Cynhaliwyd cyfarfod staff yn dilyn ein hymweliad i drafod hyn.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae’r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Mae trefniant wedi ei wneud i bob aelod o staff i fynychu cwrs cymorth cyntaf yn y flwyddyn newydd.**
- **Rheolwr Ardal i ddatblygu matrics hyfforddiant fel cefnogaeth i’r Rheolwyr Cartrefi.**
- **Monitro taflenni cofnodion gweinyddu meddyginiaeth (MAR) a chwblhau ffurflen fonitro.**

# CARTREF PLAS OGWEN

## 1. Cefndir

1.2 Mae cartref Plas Ogwen wedi ei leoli ym Methesda ac yn darparu cefnogaeth gofal tymor-hir, tymor-byr, ysbaid, galluogi a chanolradd i hyd at 27 o breswylwyr.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

## 3. Lefel Sicrwydd yr archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 3 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae cartrefi gofal wedi bod drwy gyfnod anodd yn ddiweddar gydag effaith Covid a phrinder staffio yn amharu ar y gwasanaeth. Er gwaethaf hyn, mae Cartref Plas Ogwen wedi derbyn adroddiad positif gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Mai 2022.

5.2 Mae gan y cartref gerdyn credyd, eglurwyd bod trefniant lle'r oedd y Rheolwr Cynorthwyol yn defnyddio'r cerdyn a'r Rheolwr yn cymeradwyo'r gwariant. Fodd bynnag, ers i'r Rheolwr Cynorthwyol adael, y Rheolwr sydd yn ei ddefnyddio ac yn cymeradwyo'r gwariant, heb wahaniad mewn dyletswyddau mewn lle. Yn ogystal, mae'r cerdyn yn parhau yn enw'r swyddog sydd wedi gadael. Mae Rheolwr Cynorthwyol bellach wedi ei phenodi. Mae'r Rheolwr wedi cysylltu gyda'r Uwch Dechnegydd Rheolaeth er mwyn rhoi trefniadau mewn lle ar gyfer cael cerdyn credyd newydd i sicrhau gwahaniad dyletswyddau.

5.3 Yn achlysurol, mae’r cartref yn cynnal gweithgareddau fel Bingo i’r preswylwyr. Mae unrhyw arian ddaw i law yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y preswylwyr ond nid yw’n cael ei fancio. Nid oes cofnod o’r incwm na’r gwariant yma. Mae’r Rheolwr wedi trafod hyn gyda staff ac o hyn ymlaen bydd unrhyw arian a wneir o weithgareddau yn cael ei fancio.

5.4 Adnabuwyd anghysondeb yng nghofnodion gwyliau sampl o staff, a chyfeiriwyd y mater i’r Pennaeth Cynorthwyol - Oedolion, Iechyd a Llesiant.

5.5 Detholwyd sampl o 10 aelod staff y cartref gan gynnwys staff dydd, nos ac achlysurol a gwriwyd eu cofnodion hyfforddiant Symud a Thrin, Diogelu a Chymorth Cyntaf. Gofynnir i staff gwblhau’r cyrsiau yma a’u hadnewyddu pob 3 mlynedd. Er bod sawl un yn y sampl wedi cwblhau’r cyrsiau gwelwyd nad oeddynt wedi eu hadnewyddu o fewn y cyfnod 3 mlynedd. Roedd gan 4 allan o 10 gymhwyster Symud a Thrin cyfredol, 6 allan o 10 efo cymhwyster Cymorth Cyntaf cyfredol ac 2 allan o 10 wedi cwblhau’r cwrs Diogelu yn y 3 mlynedd diwethaf. Roedd y Rheolwr yn ymwybodol bod hyfforddiant rhai wedi rhedeg allan gydag ambell un wedi dod i ben yn ystod y cyfnod Covid. Mae’r Rheolwr wedi cofrestru pawb ar gwrs Symud a Thrin. Mae’n rhaid sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd yn y cartref ar unrhyw adeg sydd yn rhwystro’r gallu i bawb fynychu cwrs, yn ogystal â’r nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar y cyrsiau.

5.6 Fel aelod o staff Cyngor Gwynedd mae disgwyl i bob aelod o staff gwblhau'r 7 modiwl e-ddysgu corfforaethol mandadol sef: Diogelu Data, Cydraddoldeb, Diogelu, Cam-drin Domestig, Atal, Iechyd a Diogelwch ac Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg. Gwelwyd bod 8 allan o’r 10 wedi cwblhau’r modiwl ‘Cam-drin Domestig’ ond niferoedd bach oedd wedi cwblhau’r modiwlau eraill e.e. 2 yn y sampl sydd wedi cwblhau’r modiwlau ‘Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg’ ac ‘Atal’.

5.7 Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant meddyginiaeth sampl o staff. Gwelwyd bod pob aelod o staff sydd yn gweinyddu meddyginiaeth yn y sampl wedi cwblhau’r hyfforddiant perthnasol ond bod rhai ohonynt angen eu diweddaru. Nodir bod Polisi Meddyginiaeth a Gweithdrefn Gweithredu Safonol newydd wedi eu cyhoeddi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae’r Rheolwr a rhai staff eraill wedi cychwyn derbyn yr hyfforddiant yma gyda’r bwriad o raeadru'r wybodaeth i lawr i weddill y staff.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae’r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Gweithredu â cherdyn credyd newydd dan enw’r Rheolwr Cynorthwyol newydd a rhoi camau mewn lle i sicrhau ei ddealltwriaeth i’r rôl.**
- **Rheolwr i gwblhau hyfforddiant meddyginiaeth newydd, ac yna asesu staff sy’n darparu meddyginiaeth.**
- **Trefnu i aelodau staff sydd yn darparu meddyginiaeth i fynychu hyfforddiant.**
- **Trefnu i dderbyn cofnodion hyfforddiant staff gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu ar gyfer adnabod unrhyw gyrsiau sydd angen eu hadnewyddu.**
- **Rheolwr Ardal i ddatblygu matrics hyfforddi fel bod modd monitro datblygiad a diweddaru cofnod hyfforddiant ar gyfer pob staff.**

Atodiad 3

**DILYNIANT CARTREF HAFOD MAWDDACH**

## 1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Cartref Hafod Mawddach fel rhan o gynllun 2022/23, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Fel rhan o'r archwiliad gwreiddiol gwiriwyd trefniadau'r cartref o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad y dilyniant oedd sicrhau fod y gwasanaeth wedi gweithredu ar y camau gweithredu ymrwymwyd iddynt er mwyn lliniaru'r risgiau cysylltiedig. Er mwyn cyflawni hyn, roedd y dilyniant yn cwmpasu gwirio sampl o breswylwyr a gofalwyr ers yr archwiliad gwreiddiol er mwyn sicrhau fod y dystiolaeth sy'n bresennol yn gyfredol, a gwirio cofnodion meddyginiaeth a thân er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi'n gywir.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 3 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Allan o'r 11 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol ym mis Tachwedd 2022 (pump â sgôr risg 12 neu uwch a gweddill gyda sgôr o 9 neu lai), gwelwyd bod 8 wedi'u gweithredu a'r gweddill yn rhannol.

5.2 Gwiriwyd sampl o 4 o breswylwyr a gwelwyd eu bod wedi'u hadolygu'n brydlon. Nodwyd mai bwriad y cartref yw trosglwyddo pob cynllun gofal i'r templed newydd a fydd yn caniatáu i'r gweithwyr allweddol gynnal unrhyw ddiweddariad yn electronig a'u hargraffu i'w roi ar ffeil y preswylwyr.

5.3 Mynegodd y Rheolwr bod yr amserlen ar gyfer cynnal goruchwyliaeth staff wedi llithro ond bod pob ymdrech i ddal i fyny yn dilyn penodiad newydd y Rheolwr Cynorthwyol.

5.4 Gwelwyd bod rhestr eiddo trylwyr o'r cartref wedi ei sefydlu.

5.5 Gwelwyd bod profion tân wythnosol yn cael eu cynnal yn y cartref.

5.6 Gwelwyd bod asesiad risg generig y cartref yn cael ei gynnal gan y Clerc.

5.7 Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant ar gyfer sampl o staff er mwyn sicrhau bod modiwlau mandadol y Cyngor wedi cael eu cwblhau. Ni welwyd bod pob gofalwr wedi cwblhau holl fodiwlau mandadol corfforaethol y Cyngor. Er hynny, ymddengys bod y gofalwyr wedi derbyn hyfforddiant o fewn eu maes gwaith sydd yn cynnwys rhai o'r modiwlau yma. Mae 24 modiwlau allweddol sydd yn fandadol i staff gofal ac mae angen eu cwblhau ar gyfer cyflawni eu swyddi, ble mai dim ond 7 modiwl mandadol corfforaethol sydd mewn lle, sef Diogelu Data, Cydraddoldeb, Diogelu, Cam-drin Domestig, Atal, Iechyd a Diogelwch ac Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg. Gofynnir i bob aelod staff eu cwblhau ond nid oedd y 7 modiwl mandadol hyn i gyd ar y rhestr o 24 modiwlau allweddol sydd i'w cwblhau gan staff gofal.

5.8 Derbyniwyd adroddiad gan y Rheolwr Cartref o archwiliad a gynhaliwyd gan dîm Iechyd ar gyfer rheolaeth meddyginiaeth y cartref. Defnyddir yr adroddiad hwn fel sicrwydd ansawdd o drefniadau rheolaeth meddyginiaeth y cartref. Yn ogystal, adroddodd y Rheolwr Cartref bod hyfforddiant meddyginiaeth newydd yn ganol cael ei gwblhau a fydd yn galluogi'r Rheolwr Cartref a'r Rheolwr Cynorthwyol yn y dyfodol agos, i ddiweddaru/cynnal profion cymhwysedd ar gyfer pob aelod staff sydd yn gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth.

5.9 Cadarnhaodd y Rheolwr a'r Clerc bod pob anfoneb sydd yn cael eu talu gan y Clerc ers yr archwiliad gwreiddiol yn cael eu hanfon at sylw'r Rheolwr.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Rheolwr Cartref a'r Clerc wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 3 mis.**
- **Sicrhau fod staff yn cwblhau'r modiwlau hyfforddiant e-ddysgu mandadol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff sydd yn gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth yn derbyn prawf cymhwysedd blynyddol.**

Atodiad 4

**DILYNIANT CARTREF BRYN BLODAU**

**1. Cefndir**

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Cartref Bryn Blodau fel rhan o gynllun 2022/23, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Fel rhan o'r archwiliad gwreiddiol gwiriwyd fod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad y dilyniant oedd sicrhau fod y gwasanaeth wedi gweithredu ar y camau gweithredu ymrwymwyd iddynt er mwyn lliniaru'r risgiau cysylltiedig. Er mwyn cyflawni hyn, roedd y dilyniant yn cwmpasu gwirio sampl o breswylwyr a gofalwyr ers yr archwiliad gwreiddiol er mwyn sicrhau fod y dystiolaeth sy'n bresennol yn gyfredol, a gwirio cofnodion meddyginiaeth a thân er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi yn gywir.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 3 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Allan o'r 10 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol ym mis Tachwedd 2022 (pump â sgôr risg 12 neu uwch a phump gyda sgôr o 9 neu lai), gwelwyd bod 6 wedi'u gweithredu a'r gweddill yn rhannol.

5.2 O'r sampl o staff cyfredol a wiriwyd, gwelwyd bod angen cynnal goruchwyliaeth ar eu cyfer. Mynegodd y Rheolwr dros dro bod amserlen mewn lle i adnabod pwy sydd angen goruchwyliaeth. Nodwyd bod y cartref yn rhedeg yn hwyr gyda chynnal goruchwyliaeth staff ers i'r Rheolwr dros dro gymryd cyfrifoldeb yn Hydref 2022 ond bod pob ymdrech wedi'i wneud i ddal i fyny. Eglurodd y Rheolwr dros dro ei bod yn dogfennu pob trafodaeth wrth wneud ymweliad neu gyswllt â staff sydd ar gyfnod salwch ac yn gweithio ar shifft nosweithiau er mwyn gallu cynnal goruchwyliaeth staff nos. Yn ogystal, mae'r cartref wedi cael sesiwn cyfarfod staff yn ddiweddar ble mae staff wedi gallu adrodd am unrhyw bryderon.

5.3 Derbyniwyd cofnodion prawf tân y cartref a gwelwyd cynhelir prawf yn wythnosol pob dydd Llun ar wahân i ŵyl y banc, ble caiff y prawf ei gynnal ar y diwrnod canlynol.

5.4 Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant ar gyfer sampl o 14 aelod o staff ar gyfer Symud a Thrin a Chymorth Cyntaf. Gofynnir i staff gwblhau'r cyrsiau yma a'u hadnewyddu pob 3 mlynedd. Er bod sawl un yn y sampl wedi cwblhau'r cyrsiau gwelwyd nad oeddynt wedi eu hadnewyddu o fewn y cyfnod 3 mlynedd. Mae 11 allan o 14 yn berchen ar gymhwyster cyfredol Symud a Thrin. O'r 3 sy'n weddill, mae 1 angen ei adnewyddu, 1 wedi mynychu cwrs Symud a Thrin Pobl (Modiwlau Ymarferol) yn 2020 ac 1 wedi cwblhau modiwl e-ddysgu Symud a Thrin Pobl - Y Gyfraith. Gwelwyd bod 4 yn berchen ar gymhwyster cyfredol 'Cymorth Cyntaf Brys yn y Gweithle'.

5.5 Gwiriwyd sampl o 10 staff sydd yn darparu meddyginiaeth a gwelwyd mai dim ond 3 ohonynt oedd yn berchen ar y cymhwyster 'Modiwl Allweddol Meddyginiaeth' cyfredol. Mae angen adnewyddu'r cymhwyster yma pob 2 flynedd. O'r sampl gwelwyd bod pob un wedi derbyn asesiad dosbarthu meddyginiaeth yn y gorffennol, ond mae angen eu hadolygu'n flynyddol. Derbyniwyd eglurhad gan y Rheolwr dros dro bod hyfforddiant meddyginiaeth 3 diwrnod wedi cael ei gynllunio ar gyfer y Rheolwr, Rheolwr Cynorthwyol ac Uwch Gymhorthydd cyn ei gyflwyno i weddill y staff.

5.6 Adroddodd y Rheolwr dros dro bod polisïau'r Cyngor, yn cynnwys polisi meddyginiaethau newydd ac Oedolion Bregus ar gael i staff eu darllen ar liniadur yn y cartref, a chaniateir hyd at 3 gofalwr i hyfforddi yn ystod oriau gwaith ar yr un adeg, ble mae adnoddau yn caniatáu.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Amserlen mewn lle i sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 3 mis.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff gyda hyfforddiant Symud a Thrin, Cymorth Cyntaf, a Diogelu cyfredol, yn ogystal â chwblhau hyfforddiant e-ddysgu mandadol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff sydd yn gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth yn derbyn prawf cymhwysedd blynyddol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff yn darllen y polisi Diogelu Oedolion Bregus, a'r Polisi Meddyginiaeth gan arwyddo i ddatgan hynny.**

Atodiad 5

**DILYNIANT CARTREF PLAS GWILYM**

**1. Cefndir**

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Cartref Plas Gwilym fel rhan o gynllun 2022/23, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Fel rhan o'r archwiliad gwreiddiol gwiriwyd fod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

**2. Bwriad a Chwmpas y Dilyniant**

2.1 Bwriad y dilyniant oedd sicrhau fod y gwasanaeth wedi gweithredu ar y camau gweithredu ymrwymwyd iddynt er mwyn lliniaru'r risgiau cysylltiedig. Er mwyn cyflawni hyn, roedd y dilyniant yn cwmpasu gwirio sampl o breswylwyr a gofalwyr ers yr archwiliad gwreiddiol er mwyn sicrhau fod y dystiolaeth sy'n bresennol yn gyfredol, a gwirio sampl o wiriadau meddyginiaeth a thân i sicrhau eu bod wedi cael eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi yn gywir.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad dilyniant fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 4 |
| ISEL | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Allan o'r 12 gweithrediad a chytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol ym mis Tachwedd 2022 (saith â sgôr risg 15 neu uwch, a phump gyda sgôr o 9 neu lai), mae 9 wedi'u gweithredu a'r gweddill yn rhannol.

5.2 Gwiriwyd sampl o breswylwyr a gwelwyd bod cynllun gofal ar gyfer pob un heblaw am un preswyliwr newydd oedd heb dderbyn adolygiad ers ei leoliad ym mis Mehefin 2023. Adroddwyd hyn i'r Rheolwr Cartref er mwyn atgoffa'r gweithwyr allweddol perthnasol. Fodd bynnag, gwelwyd bod rhestr eiddo ar gael ar ffeil pob preswylydd.

5.3 Gwiriwyd sampl o swyddogion ar gyfer cadarnhau bod goruchwyliaeth wedi ei gynnal yn rheolaidd. Mynegodd y Rheolwr bod amserlen newydd wedi'i chreu ers Gorffennaf 2023 ar gyfer cynnal goruchwyliaeth a bod 9 o swyddogion wedi derbyn goruchwyliaeth hyd yma un ai gan y Rheolwr neu'r Rheolwr Cynorthwyol.

5.4 Eglurodd y Rheolwr bod trefn diogelu arian poced preswylwyr wedi ei adolygu ac mae camau ychwanegol wedi'u rhoi ar gyfer diogelu arian poced preswylwyr, h.y. côd y 'key safe' wedi newid ac mae pob amlen arian poced y preswylwyr yn cael ei gyfrif yn wythnosol gan y Rheolwr a'r Rheolwr Cynorthwyol i sicrhau cywirdeb.

5.5 Gwiriwyd cofnodion prawf larwm tan y cartref ar gyfer mis Medi a Hydref 2023 a gwelwyd nad oedd prawf wedi cael ei gynnal am bythefnos ym mis Medi. Serch hynny, gwelwyd bod profion yn cael eu cynnal yn wythnosol fel rheol.

5.6 Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant sampl o 12 aelod o staff. Gwelwyd bod 10 wedi mynychu cwrs Symud a Thrin, gyda 8 yn berchen ar gymhwyster cyfredol. O'r modiwlau mandadol y Cyngor, ni welwyd bod pob swyddog wedi cwblhau'r holl fodiwlau ac anfonwyd y rhestr o eithriadau at sylw'r Rheolwr.

5.7 Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant ar gyfer sampl o 10 aelod o staff sydd yn darparu meddyginiaeth a gwelwyd mai ond 5 ohonynt oedd yn berchen ar y cymhwyster 'Modiwl Allweddol Meddyginiaeth' cyfredol. Mae angen diweddaru'r cymhwyster yma pob 2 flynedd. O'r sampl, gwelwyd bod pob un wedi derbyn asesiad dosbarthu meddyginiaeth yn y gorffennol ond bod angen eu diweddaru'n flynyddol.

5.9 Gwelwyd bod y polisi Diogelu Oedolion Bregus wedi cael ei argraffu a'i roi tu allan i'r swyddfa ar gyfer i staff ei ddarllen a'i arwyddo.

5.10 Gwiriwyd sampl o gofnodion stoc meddyginiaeth. Gwelwyd bod gwiriadau stoc wedi cael eu cynnal yn rheolaidd. O'r gwiriad stoc diwethaf, ymddengys bod un achos o anghysondeb o 2 dabled rhwng yr hyn oedd yn y cofnodion a'r hyn oedd yn y paced. Cafodd y cofnod ei gywiro gan y Rheolwr.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau fod cynlluniau gofal yn derbyn adolygiadau amserol, a nodiadau dyddiol yn cael eu cwblhau ar amser.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 3 mis.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff y cartref yn cwblhau hyfforddiant Symud a Thrin, Cymorth Cyntaf, a Diogelu, yn ogystal â chwblhau modiwlau e-ddysgu mandadol y Cyngor.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff yn darllen y polisi Diogelu Oedolion Bregus, gan arwyddo i ddatgan hynny.**

Atodiad 6

## UNEDAU DIWYDIANNOL

**1. Cefndir**

1.1 Mae Cyngor Gwynedd yn berchen ar 48 o unedau diwydiannol sydd wedi eu lleoli drwy'r sir yn ogystal â 2 Canolfan Menter. Mae Unedau yn disgyn i ddosbarthiadau busnes, diwydiant cyffredinol neu ystorfa/dosbarthu. Mae'r unedau diwydiannol ar gael i'w rhentu, gyda phroses mewn ar gyfer cyflwyno ac asesu ceisiadau drwy ddefnyddio matrics sgorio. Mae'r Cyngor hefyd yn gosod allan 11 o safleoedd fel consesiwn i werthu hufen iâ drwy geisiadau tendr.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gosod a rheoli unedau diwydiannol y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o unedau diwydiannol sydd wedi eu gosod, gwirio adroddiadau incwm ac ôl-ddyledion a gwirio trefniadau'r Cyngor o weithredu yn unol â'r prydlesi megis cynnal a chadw ayb.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Er mwyn gwirio bod proses briodol a thryloyw mewn lle i asesu ceisiadau, gwiriwyd sampl o 8 o ffolderi tenantiaid cyfredol Unedau Diwydiannol a gwelwyd mai dim ond 6 oedd wedi cyflwyno ffurflen gais, a 2 wedi cyflwyno cynllun busnes ynghyd â thystiolaeth i gefnogi'r cais. Darganfuwyd mai tenantiaid hanesyddol oedd y rhai heb gyflwyno'r dogfennau a'u wedi bod yn yr Unedau ers blynyddoedd, pan nad oedd y gwiriadau yma yn rhan o'r broses. Gwiriwyd sampl pellach o 3 Uned ar ôl 2020, a gwelwyd bod yr holl wybodaeth hanfodol wedi ei gynnwys yn y ffolderi.

4.2 Gwiriwyd bod prydles mewn lle ar gyfer yr Unedau yn y sampl, a gwelwyd bod swm y rhent yn y prydlesi yn cyd-fynd â'r swm a godwyd gan y Cyngor ym mhob achos a bod unrhyw eitemau ychwanegol wedi eu cynnwys.

4.3 Gwiriwyd dogfennau sgorio ar gyfer 3 Uned yn y sampl, 'roedd un wedi ei sgorio drwy'r hen ffurf oedd yr adran Economi a Chymuned yn ei ddefnyddio ac nad oedd mwyafrif o'r blychau wedi eu llenwi ar gyfer y ceisiadau a dim sgôr terfynol wedi ei ddarparu. Roedd y ddau arall yn y sampl yn defnyddio taflen gyfoes yr adran Tai ac Eiddo, sydd llawer mwy manwl. Roedd y sgorio ar y cyfan yn gywir ers defnyddio'r ffurf matrics newydd, ac roedd y cwmnïoedd efo'r pwyntiau uchaf fel sgôr terfynol wedi ennill y tendr ym mhob achos.

4.4 Gwiriwyd sampl o 2 o gonsesiynau hufen iâ a gwelwyd bod yr adran yn cadw at y telerau ac amodau wrth osod y tendrau, bod dogfennau perthnasol wedi eu derbyn ar gyfer pob un, a dau swyddog yn rhan o'r broses agor tendrau. Nid yw'r tendrau yma yn cael eu sgorio ar ffurf sgorio matrics fel yr Unedau Diwydiannol, gan mai'r tendr cymwys sydd efo'r bid uchaf sydd yn ennill.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **14 RHAGFYR 2023** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2023/24** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2023/24** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2023/24.

**2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN**

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2023/24 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 30 Tachwedd 2023 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 1 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 13 |
| Disgwyl Adolygiad | 0 |
| Adroddiad Drafft | 2 |
| Wedi ei gau | 0 |
| Adroddiad Terfynol | 14 |
| **Cyfanswm** | **30** |
| | |
| **Canslwyd** | **12** |

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2024. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 8% |
| Diwedd chwarter 2 | 20% |
| Diwedd chwarter 3 | 50% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 30 Tachwedd 2023 oedd **47%** - allan o'r **30** archwiliad unigol yng nghynllun 2023/24 roedd **14** wedi eu rhyddhau yn derfynol/cwblhau, neu wedi cau.

## 3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

3.1 Yn wreiddiol, rhagwelwyd bod oddeutu 503 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau Cynllun Archwilio 2023/24. Roedd hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio oedd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau 'di-gynnyrch' megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd. Fodd bynnag, oherwydd cyfnod salwch hir-dymor, 'roedd yn anochel na ellid cynnal rhai archwiliadau yn deillio o'r lleihad yn yr adnoddau.

3.2 I adlewyrchu'r uchod yn y Cynllun Archwilio, penderfynwyd i addasu neu ganslo/gohirio'r archwiliadau canlynol hyd paratoi cynllun archwilio mewnol 2024/25.

| Archwiliad | Dyddiau | Addasiad/Canslo |
|---|---|---|
| Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | -10 | Addasiad |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol | -10 | Addasiad |
| Dilyniant - archwiliad Trefniadau Cyfathrebu Cynllunio | -3 | Addasiad |
| Trefniadau Talu ac Awdurdodi (Data Analytics) | -25 | Canslo |
| Rheoli Absenoldebau a Threfniadau Cyfeirio | -25 | Canslo |
| Grant Addysg Awdurdod Lleol | -5 | Canslo |
| Balansau Wrth Gefn Ysgolion | -8 | Canslo |
| Traffig a Phrosiectau | -8 | Canslo |
| Clefyd Gwywiad yr Onnen | -8 | Canslo |
| Gwasanaeth Cefn Gwlad | -8 | Canslo |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF - Shared Prosperity Fund) | -20 | Canslo |
| Tîm Trawsffurfio | -15 | Canslo |
| Trefniadau ar ddyletswydd Priffyrdd | -15 | Canslo |
| Gwaith Mewndirol ac Arfordirol y Strategaeth FCERM Lleol | -10 | Canslo |
| Cynllunio ar gyfer newid mewn cyfraith etholiadau | -8 | Canslo |
| **Cyfanswm** | **178** | |

3.3 Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus, mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. I'r perwyl hyn, mae'n ofynnol bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg a chaiff y cynllun ei adolygu a'i ddiweddaru'n barhaus.

3.4 Bydd yn anochel bod unrhyw gynllun archwilio yn hyblyg er gallu gweithredu ar ddatblygiadau a materion risg uchel a ddaw i'r amlwg. Felly, bydd cynnal archwiliadau yn ddibynnol ar asesiad amserol o risgiau/blaenoriaethau ac unrhyw ddatblygiadau neu risgiau newydd a ddaw i'r amlwg yn y cyfnod ansefydlog hwn.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2023/24, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.

| Adran | Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Ar ôl | Statws yr Archwiliad | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | Balansau Wrth Gefn Ysgolion | 8 | 0 | 0.0 | **0.0** | Wedi canslo | |
| | Cronfeydd Answyddogol Ysgol | 30 | 30 | 13.4 | **16.6** | Gwaith ar y gweill | |
| | Grant Addysg Awdurdod Lleol 22/23 | 5 | 0 | 0.0 | **0.0** | Wedi canslo | |
| | Grant Addysg Ôl-16 | 3 | 3 | 1.1 | **1.9** | Gwaith ar y gweill | |
| | Ysgolion Cyffredinol | 5 | 5 | 0.1 | **4.9** | Gwaith ar y gweill | |
| Amgylchedd | Dilyniant - Trefniadau Cyfathrebu Cynllunio | 12 | 9 | 0.7 | **8.3** | Gwaith ar y gweill | |
| | Gwasanaeth Cefn Gwlad | 8 | 0 | 0.0 | **0.0** | Wedi canslo | |
| | Traffig a Phrosiectau | 8 | 0 | 0.0 | **0.0** | Wedi canslo | |
| | Gwastraff Gardd | 6 | 6 | 8.4 | **-2.4** | Adroddiad Drafft | Digonol |
| | Gwastraff Swmpus | 5 | 5 | 6.2 | **-1.2** | Gwaith ar y gweill | |
| | Dilyniant Diogelwch Tacsis | 5 | 5 | 7.8 | **-2.8** | Adroddiad Terfynol | Digonol |
| Corfforaethol | Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | 50 | 40 | 18.8 | **21.2** | Gwaith ar y gweill | |
| | Diogelwch Seicolegol 22/23 | | | 0.9 | **-0.9** | | |
| | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol | 50 | 40 | 4.4 | **35.6** | Gwaith ar y gweill | |
| | Rheolaeth Categori Corfforaethol | 25 | 25 | 11.0 | **14.0** | Gwaith ar y gweill | |
| | Rheoli Absenoldebau a Threfniadau Cyfeirio | 25 | 0 | 3.4 | **-3.4** | Wedi canslo | |
| | Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | 3 | 3 | 0.7 | **2.3** | Gwaith ar y gweill | |
| | Trefniadau Diogelu- Sefydliadau | 3 | 3 | 0.7 | **2.3** | Gwaith ar y gweill | |
| | Trefniadau Talu ac Awdurdodi (Data Analytics) | 25 | 0 | 0.0 | **0.0** | Wedi canslo | |
| Cyllid | Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd | 4 | 4 | 2.1 | **1.9** | Adroddiad Terfynol | Uchel |
| | Cyflogau Athrawon | 15 | 15 | 16.6 | **-1.6** | Adroddiad Terfynol | Digonol |
| | Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2022-23 | 4 | 4 | 3.4 | **0.6** | Adroddiad Terfynol | Uchel |
| | Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2022-23 | 4 | 4 | 3.3 | **0.7** | Adroddiad Terfynol | Uchel |
| | Rheolaethau Allweddol Budd-Daliadau | 15 | 15 | 10.7 | **4.3** | Gwaith ar y gweill | |
| Economi a Chymuned | Amgueddfa Lloyd George | 3 | 3 | 3.0 | **0.0** | Adroddiad Terfynol | Uchel |
| | Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF - Shared Prosperity Fund) | 20 | 0 | 0.0 | **0.0** | Wedi canslo | |
| | Cronfa'r Degwm | 3 | 3 | 3.0 | **0.0** | Adroddiad Terfynol | Uchel |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cartref Plas Maesincla | 12 | 12 | 17.4 | **-5.4** | Adroddiad Terfynol | Digonol |
| | Cartref Plas Ogwen | 12 | 12 | 16.1 | **-4.1** | Adroddiad Terfynol | Digonol |
| | Cartref Cefn Rodyn | 12 | 12 | 20.4 | **-8.4** | Adroddiad Drafft | Digonol |
| | Dilyniant - Cartref Preswyl Mawddwy | 3 | 3 | 3.1 | **-0.1** | Adroddiad Terfynol | Digonol |
| | Dilyniant - Cartref Bryn Blodau | 3 | 3 | 3.9 | **-0.9** | Adroddiad Terfynol | Digonol |
| | Dilyniant - Cartref Preswyl Plas Gwilym | 4 | 4 | 5.4 | **-1.4** | Adroddiad Terfynol | Digonol |
| | Tîm Trawsffurfio | 15 | 0 | 0.0 | **0.0** | Wedi canslo | |
| | Diogeliadau Amddifyn Rhyddid - Dilyniant | 6 | 6 | 0.0 | **6.0** | Wedi ei gynllunio | |
| Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Gwaith Mewndirol ac Arfordirol y Strategaeth FCERM Lleol | 10 | 0 | 0.0 | **0.0** | Wedi canslo | |
| | Incwm Masnachol | 10 | 10 | 13.1 | **-3.1** | Gwaith ar y gweill | |
| | Trefniadau ar ddyletswydd Priffyrdd | 15 | 0 | 0.0 | **0.0** | Wedi canslo | |
| | Clefyd Gwywiad Yr Onnen (Ash Dieback) | 8 | 8 | 2.0 | **6.0** | Wedi canslo | |
| Tai ac Eiddo | Grant Cymorth Tai | 10 | 10 | 9.9 | **0.1** | Adroddiad Terfynol | Digonol |
| | Manddaliadau - Dilyniant | 6 | 6 | 0.9 | **5.1** | Gwaith ar y gweill | |
| | Unedau Diwydiannol | 25 | 25 | 25.2 | **-0.2** | Adroddiad Terfynol | Uchel |
| Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol | Cyllunio ar gyfer newid mewn cyfraith etholiadau | 8 | 0 | 1.3 | **-1.3** | Wedi canslo | |
| | **Cynllun Cyngor Gwynedd** | **503** | **333** | **238.4** | **94.6** | | |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **14 RHAGFYR 2023** |
| TEITL | **HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
Roedd cynnyrch gilt y DU yn gyfnewidiol, gan wynebu pwysau ar i fyny yn bennaf ers dechrau mis Ebrill yn dilyn arwyddion bod twf y DU wedi bod yn fwy gwydn, yn fwy cyson â chwyddiant na'r disgwyl, a bod Banc Lloegr yn gweld cyfraddau uwch yn barhaus drwy 2023/24 yn allweddol i leddfu galw domestig. Cododd arenillion giltiau, ac o ganlyniad cyfraddau benthyca PWLB, ac arhosodd yn fras ar lefelau uwch. Ar 30 Medi, cyfraddau sicrwydd y PWLB ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd oedd 5.26% ar gyfer benthyciadau 10 mlynedd, 5.64% ar gyfer benthyciadau 20 mlynedd a 5.43% ar gyfer benthyciadau 50 mlynedd. Y ffigurau cyfatebol ar 31 Mawrth 2023 oedd 4.33%, 4.70% a 4.41% yn y drefn honno.

Mae'r Cyngor yn ystyried ei bod yn fwy cost effeithiol yn y tymor byr i ddefnyddio adnoddau mewnol a defnyddio benthyciadau tymor byr pan fo angen. Mae'r strategaeth hon yn galluogi'r Cyngor i leihau costau benthyca net (er gwaethaf colli incwm buddsoddi) a lleihau risg gyffredinol y trysorlys.

## 5. GWEITHGAREDD BUDDSODDI TRYSORLYS

Mae Cod TM diwygiedig CIPFA yn diffinio buddsoddiadau rheoli'r trysorlys fel y rhai sy'n codi o lif arian y Cyngor neu weithgaredd rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bod angen yr arian parod i'w ddefnyddio yn ystod busnes.

Mae gan y Cyngor gronfeydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn ystod y 6 mis, roedd balans buddsoddiadau'r Cyngor yn amrywio rhwng £139.5 a £223.4 miliwn oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Dangosir sefyllfa'r buddsoddiadau yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

**Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | 31.3.23<br>Balans<br>£m | Symudiad<br>6 mis<br>£m | 30.9.23<br>Balans<br>£m | 30.9.23<br>Incwm<br>% |
|---|---|---|---|---|
| Banciau a chymdeithasau adeiladu (ansicredig) | 29.1 | (7.4) | 21.7 | 5.21 |
| Awdurdodau Lleol | 20.1 | 44.9 | 65.0 | 5.19 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 60.8 | (2.8) | 58.0 | 5.27 |
| Cronfeydd Cyfun | 8.7 | 2.8 | 11.5 | 5.13 |
| Swyddfa Rheoli Dyledion | 34.0 | (0.9) | 33.1 | 5.27 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **152.7** | **36.6** | **189.3** | |

Mae Cod CIPFA a chanllaw'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

Fel y dangosir gan feincnod rhwymedigaeth yr adroddiad hwn, mae'r Cyngor yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf i reoli llif arian o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr. Bydd y portffolio presennol o gronfeydd cyfun strategol yn cael ei gynnal i amrywio risg i wahanol ddosbarthiadau o asedau a hybu incwm buddsoddi.

Dangosir dilyniant metrigau risg ac enillion yn y dyfyniadau o feincnodi buddsoddiad chwarterol Arlingclose yn y tabl isod.

| | Sgôr Risg | Statws Credyd | Datguddiad 'Bail-in' | Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (diwrnodau) | Cyfradd Adennill % |
|---|---|---|---|---|---|
| 31.03.2023 | 4.63 | A+ | 62% | 33 | 4.04 |
| 30.09.2023 | 4.57 | A+ | 45% | 47 | 5.23 |
| **AL tebyg** | **4.21** | **AA-** | **29%** | **86** | **4.89** |
| **Bob AL** | **4.47** | **AA-** | **59%** | **13** | **4.79** |

Cynyddodd y Gyfradd Banc 1%, o 4.25% ar ddechrau mis Ebrill i 5.25% erbyn diwedd mis Medi. Cododd cyfraddau arian parod dyddiad byr yn gymesur, gyda chyfraddau 3 mis yn codi i tua 5.25% a chyfraddau 12 mis i bron i 6%. Cododd y cyfraddau ar adneuon DMADF hefyd, yn amrywio rhwng 4.8% a 5.4% erbyn diwedd mis Mehefin a Chyfraddau'r Farchnad Arian rhwng 4.9% a 5.3%.

Dalier £13m o fuddsoddiadau’r Cyngor mewn cronfeydd eiddo, aml-ased ac ecwiti cyfun strategol a reolir yn allanol lle mae diogelwch a hylifedd tymor byr yn llai o ystyriaeth, ac yn hytrach yr amcanion yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Gan nad oes dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig gan y cronfeydd hyn, ond maent ar gael i’w tynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, mae eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcan buddsoddi'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gweler perfformiad ein cronfeydd eiddo, aml-ased ac ecwiti cyfun hyd at 30 Medi 2023 isod:

STRATEGIC POOLED FUND PORTFOLIO — GWYNEDD — From: 30/09/2022 To: 30/09/2023

| FUND NAME | ASSET CLASS | No of Units Held in Period | Current Value £ | Capital Growth £ | Dividends Earned £ | Holding Period (yrs) | Capital Return | Income Return | Total Return | Volatility |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AEGON (KAMES) DIVERSIFIED MONTHLY INCOME FUND | MULTI ASSET | 1,158,480 | 1,082,514 | 34,230 | 65,039 | 1.0 | 3.27% | 6.20% | 9.47% | 7.9% |
| CCLA - LAMIT PROPERTY FUND | PROPERTY | 1,524,344 | 4,269,535 | -949,819 | 202,067 | 1.0 | -18.20% | 3.87% | -14.33% | 8.9% |
| NINETY ONE (INVESTEC) DIVERSIFIED INCOME FUND | MULTI ASSET | 1,228,153 | 1,085,123 | 4,735 | 43,617 | 1.0 | 0.44% | 4.04% | 4.48% | 4.1% |
| PAYDEN ABSOLUTE RETURN BOND FUND | ABSOLUTE RETURN | 233,541 | 1,991,803 | -8,197 | 10,509 | 0.0 | -0.41% | 0.53% | 0.12% | 0.1% |
| SCHRODER INCOME MAXIMISER FUND | EQUITY - UK | 7,675,245 | 3,046,305 | 221,954 | 168,782 | 0.7 | 7.86% | 5.98% | 13.83% | 13.8% |
| GRAND TOTAL | | | 11,475,279 | -697,098 | 490,014 | 0.8 | -5.73% | 4.03% | -1.70% | 4.7% |

Unrealised capital loss since purchase: -1,524,722 Annualised income return: 5.13%

Mae’n amlwg bod y gwerth cyfalaf cyfun o £11.475m yn llai na’r buddsoddiad cychwynnol o £13m. Gwneir buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed blynyddoedd; ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn uwch na chyfraddau llog arian parod. Byddwn yn cynnal ein buddsoddiad yn y tymor canolig.

Oherwydd does gan y cronfeydd ddyddiad terfynu wedi’i ddiffinio, ond ar gael i dynnu allan ar ol cyfnod rhybudd, mae eu perfformiad yn cael eu monitro yn barhaus.

## 6. CYDYMFFURFIO

Gall y Pennaeth Cyllid gadarnhau bod gweithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod yn cydymffurfio gyda Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli Trysorlys cymeradwy’r Cyngor. Dangosir cydymffurfiad â therfynau buddsoddi penodol yn y tabl isod.

**Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | Uchafswm Gwrthbarti yn y cyfnod | Gwir Gwrthbarti 30.9.23 | 2023/24 Terfyn Gwrthbarti | Cydym-ffurfio |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | £95.3m | £33.1m | Diderfyn | ✓ |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | £5m | £5m | £10m | ✓ |
| Buddsoddiadau â sicrwydd | £0m | £0m | £10m | ✓ |
| Banciau (ansicredig) | £5m | £5m | £5m | ✓ |
| Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) | £5m | £5m | £5m | ✓ |
| Darparwyr cofrestredig (ansicredig) | £0m | £0m | £5m | ✓ |
| Cronfeydd marchnad arian | £10m | £10m | £10m | ✓ |
| Cronfeydd cyfun strategol | £5m | £5m | £10m | ✓ |
| Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real | £0m | £0m | £10m | ✓ |
| Buddsoddiadau eraill | £0m | £0m | £5m | ✓ |

Dangosir cydymffurfiad â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn y tabl isod:

**Ffin Dyled**

| | Uchafswm yn y cyfnod | 30.9.23 Gwir | 2023/24 Ffin Gweithredol | 2023/24 Ffin Awdurdodedig | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | £102.0m | £102.0m | £184m | £194m | ✓ |
| PFI a Prydlesau Cyllid | £1.4m | £1.4m | £6m | £6m | ✓ |
| **Cyfanswm Dyled** | **£103.4m** | **£103.4m** | **£190m** | **£200m** | ✓ |

## 7. DANGOSYDDION DARBODUS RHEOLI'R TRYSORLYS

Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli'r Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Cyngor yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol ar gyfer rheoli'r trysorlys.


### i. Meincnod Atebolrwydd

Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu gwir fenthyciadau presennol y Cyngor yn erbyn meincnod rhwymedigaeth sydd wedi'i gyfrifo i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod atebolrwydd yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'n cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf o £10m sydd ei angen i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

| | 31.3.23 Gwir | 31.3.24 Amcan | 31.3.25 Amcan | 31.3.26 Amcan |
|---|---|---|---|---|
| CFR Benthyciadau | 171.0 | 177.5 | 178.9 | 179.9 |
| Llai: Adnoddau'r Fantolen | (129.7) | (117.1) | (103.6) | (90.2) |
| **Gofynion benthyciadau net** | 41.3 | 60.4 | 75.3 | 89.7 |
| Hefyd: Lwfans hylifedd | 10.0 | 10.0 | 10.0 | 10.0 |
| **Meincnod atebolrwydd** | **51.3** | **70.4** | **85.3** | **99.7** |
| **Benthyca presennol** | **102.0** | **98.3** | **92.7** | **88.7** |

Mae'r tabl yn dangos bod y Cyngor yn disgwyl parhau i gael ei fenthyca uwchlaw ei feincnod atebolrwydd hyd at 2025. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn, ac mae all-lifau arian parod hyd yma wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd y benthyciadau.

Yn dilyn ymlaen o'r rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod rhwymedigaeth hirdymor yn rhagdybio na chaiff unrhyw wariant cyfalaf newydd ei ariannu drwy fenthyca, isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar ddull llinell syth 50 mlynedd. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol y Cyngor.




Mae'r siart yn dangos nad oes angen benthyca yn y tymor hir yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol, ond efallai yn y tymor byr yn y dyfodol agos.

### ii) Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:

Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail-ariannu. Roedd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | Uchaf | Isaf | Gwir | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 2.42% | 25% | 0% | ✓ |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 6.53% | 25% | 0% | ✓ |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 8.48% | 50% | 0% | ✓ |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 17.78% | 75% | 0% | ✓ |
| 10 mlynedd a throsodd | 64.79% | 100% | 0% | ✓ |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu ad-daliad.

### iii. Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hir-dymor

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o achosi colledion trwy geisio ad-daliad cynnar o'i fuddsoddiadau. Y terfynau darbodus ar y terfynau rheoli trysorlys hirdymor yw:

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Dim Dyddiad Penodol |
|---|---|---|---|---|
| Y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £15m | £0m | £0m | £0m |
| Terfyn ar brifswm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £40m | £20m | £20m | £20m |
| **Cydymffurfio** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Dangosyddion Ychwanegol:**
Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwysoli gan amser yn ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo drwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli gan hyd pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

| | Gwir 30.09.23 | Targed 2023/24 | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 4.57 | Sgôr o 6.0 neu lai | ✓ |

**Hylifedd:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro faint o arian sydd ar gael i dalu taliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

| | Gwir 30.09.23 | Targed 2023/24 | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £147.8m | £10m | ✓ |

**Datguddiad Cyfraddau Llog**:

Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog oedd:

| | Gwir 30.09.23 | Terfyn 2023/24 | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog | £1,485,115 | £1,039,420 | X |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gwymp o 1% mewn cyfraddau llog | £1,485,115 | £1,039,420 | X |

Ni chydymffurfiwyd â'r dangosydd hwn oherwydd gosodwyd y dangosydd pan oedd cyfraddau llog yn isel, ond mae lefelau llog wedi codi'n sylweddol yn y flwyddyn heb rybudd ac felly mae'n rhesymol bod y symiau yn uwch na'r terfyn.

**Perfformiad Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol ei weithgareddau rheoli trysorlys o ran ei effaith ar y gyllideb refeniw a’i berthynas â meincnod cyfraddau llog.

Cyllideb incwm buddsoddi’r Cyngor am y flwyddyn yw £1.9m, ond amcangyfrifir bod yr incwm buddsoddi disgwyliedig gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn sylweddol uwch yn £3.0m oherwydd cynnydd yn y gyfradd sylfaenol a chynnydd a ragwelir yn y dyfodol.

**8. HYFFORDDIANT BUDDSODDI**

Yn ystod y cyfnod, mae swyddogion wedi mynychu hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA sy’n berthnasol i’w swyddi.

**9. ARGYMHELLIAD**

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Gwynedd – Cynllun Archwilio Manwl 2023

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3742A2023



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.  Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod.  Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.  Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.  Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, phan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol.  Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.  Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.  We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

## Ein nodau a'n huchelgeisiau

**Rhoi Sicrwydd**

i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda

**Egluro**

sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio a sut mae'n diwallu anghenion pobl

**Ysbrydoli**

a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

Manteisio'n llawn ar ein persbectif, ein harbenigedd a'n dyfnder mewnwelediad unigryw

Cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol

Cynyddu ein gwelededd, ein dylanwad a'n perthnasedd

Bod yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 8 |
| Perthnasedd datganiadau ariannol | 9 |
| Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol | 10 |
| Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt | 11 |
| Amserlen archwilio datganiadau ariannol | 13 |
| Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig | 14 |
| Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grant | 15 |
| Swyddogaethau archwilio statudol | 15 |
| Ffi a’r tîm archwilio | 16 |
| Ansawdd archwilio | 18 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – newidiadau allweddol i Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 a’u heffaith | 19 |

# Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Archwilio Manwl hwn yn nodi fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae'n nodi'r gwaith y mae fy nhîm yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd allweddol eraill y canolbwyntir arnynt yn ystod 2023.

Mae hefyd yn nodi fy ffi archwilio amcangyfrifedig, manylion fy nhîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig fy nhîm archwilio.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

## Fy nghyfrifoldebau archwilio

Rwyf yn cwblhau gwaith bob blwyddyn er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- Rwyf yn archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd i sicrhau y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.
- Rhaid i Gyngor Gwynedd roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid imi fod wedi fy modloni ei fod wedi gwneud hyn.
- Mae angen i Gyngor Gwynedd gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae'n gwneud hyn.

## Archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol imi gyflwyno tystysgrif ac adrodd ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' ac asesiad ynghylch a yw'r Adroddiad Naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei baratoi yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r canllawiau perthnasol ac yn gyson â'ch datganiadau ariannol a'm gwybodaeth am yr Awdurdod.

Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, rwyf hefyd yn gyfrifol am:

- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am Gyngor Gwynedd i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan;
- ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon oddi wrth etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen);
- archwilio cyfrifon cronfa bensiwn Cyngor Gwynedd (mae cynllun archwilio ar wahân wedi ei baratoi ar gyfer archwilio'r gronfa bensiwn);
- yr archwiliad o Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ac Harbyrau Gwynedd lle na chynhyrchir cynlluniau ar wahân;
- yr archwiliad o gyd-bwyllgorau GwE a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru lle cynhyrchir cynlluniau ar wahân; ac
- ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grant fel y cytunwyd gyda'r cyrff cyllido.

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Nodir y lefelau pan fyddaf yn barnu camddatganiadau o'r fath i fod yn berthnasol yn ddiweddarach yn y cynllun hwn.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

## Gwaith archwilio perfformiad

Rwyf yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau[1] fel Archwilydd Cyffredinol mewn cysylltiad â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.

Bydd fy rhaglen archwilio perfformiad lleol yn parhau i gael ei darparu drwy gyfuniad o Brosiect Asesu Sicrwydd a Risg, prosiectau lleol pwrpasol a phrosiectau thematig sy'n archwilio'r risgiau sy'n gyffredin i bob cyngor.

Cynhelir y rhan fwyaf o'm gwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio safonau archwilio Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Sefydliad ambarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf. Sefydliad anllywodraethol yw ef sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig.

[1] Pan fyddwn yn ymgymryd â gwaith archwilio o dan ein pwerau a'n dyletswyddau statudol, mae'n bosibl y byddwn yn casglu gwybodaeth gan gyrff cyhoeddus sy'n cynnwys rhywfaint o ddata personol. Mae ein hysbysiad prosesu teg archwilio cyffredinol yn esbonio'r hyn a wnawn â data personol, a sut y gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data.

# Cipolwg ar eich archwiliad

**Bydd fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn canolbwyntio ar eich risgiau a meysydd pwyslais eraill**

Mae fy nghynllun archwilio wedi nodi'r risgiau canlynol:

Risg sylweddol i ddatganiadau ariannol

- Gwrth-wneud gan y Rheolwyr

Meysydd eraill y bydd y gwaith archwilio yn canolbwyntio arnynt

- Prisio tir ac adeiladau
- Prisio rhwymedigaethau net cronfa bensiwn
- Gwarged cronfa bensiwn

**Bydd fy archwiliad o berfformiad yn cynnwys:**

- Asesu Sicrwydd a Risg
- Adolygiadau thematig:
  - Comisiynu a Rheoli Contractau
  - Cynaliadwyedd Ariannol mewn Llywodraeth Leol
- Adroddiad Lleol
  - Gwastraff ac ailgylchu

**Perthnasedd**

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | £5.387 miliwn |
| Trothwy adrodd | £269,000 |

# Perthnasedd datganiadau ariannol

## Perthnasedd £5.387 miliwn

Fy nod yw nodi a chywiro camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai achosi i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain fel arall.

Cyfrifir perthnasedd gan ddefnyddio:

- Gwariant gros 2022-23 sef £538.7 miliwn
- Canran perthnasedd o 1%

Rwyf yn adrodd unrhyw gamddatganiad sy'n fwy na lefel ddibwys (a bennir ar berthnasedd o 5%) i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

## Meysydd o ddiddordeb penodol

Ceir rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

- Cydnabyddiaeth uwch-swyddogion £1,000
- Datgeliadau Partïon Cysylltiedig – £10,000 (Unigolion), £5.387 miliwn (Cyrff Eraill)

# Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol

Nodir risgiau sylweddol o gamddatganiad perthnasol y mae'r asesiad o risg cynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg cynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio eraill.  Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn gofyn i ni roi mwy o sylw ar y risgiau sylweddol hyn.

**Arddangosyn 1: risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol**

| Risg sylweddol | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| **Gwrth-wneud gan y Rheolwyr**<br>Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol. |

Nid yw'r tîm archwilio wedi cwblhau pob rhan o'r asesiad risg eto. Os bydd unrhyw risgiau ariannol sylweddol pellach yn codi ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, byddwn yn hysbysu'r swyddog A151 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy ei gadeirydd ac yn ailgyhoeddi fy Nghynllun Archwilio Manwl os bydd angen.

# Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt

Cyflwynaf risgiau eraill o gamddatganiad perthnasol a nodwyd. Er na phenderfynwyd eu bod yn risgiau sylweddol fel yr uchod, hoffwn eu dwyn i'ch sylw.

**Arddangosyn 2: meysydd eraill y canolbwyntir arnynt**

| Risg archwilio | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| **Prisio tir ac adeiladau**<br>Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a'r nodiadau i'r cyfrifon yn amcangyfrifon perthnasol.<br>Mae'n ofynnol i dir ac adeiladau gael eu dal ar sail brisio sy'n dibynnu ar natur yr asedau a'r defnydd a wneir ohonynt. Mae'r amcangyfrif hwn yn ddarostyngedig i gryn dipyn o oddrychedd yn dibynnu ar y tybiaethau arbenigol a rheoli a fabwysiedir a gall newidiadau yn y tybiaethau hyn arwain at newidiadau perthnasol i brisiadau.<br>Mae'n ofynnol i asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ond gall gwerthoedd newid hefyd o flwyddyn i flwyddyn ac mae risg y gallai gwerth cario ymlaen asedau a adlewyrchir yn y cyfrifon fod yn wahanol iawn i werth cyfredol asedau ar 31 Mawrth 2023.<br>Mae'r Cyngor yn ailbrisio eu hasedau o leiaf bob 5 mlynedd ar raglen dreigl pum mlynedd. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• adolygu'r broses a gynhaliwyd gan y Cyngor i sicrhau bod prisiadau asedau yn berthnasol gywir;<br>• adolygu'r wybodaeth a roddwyd i'r prisiwr i asesu ar gyfer cyflawnder;<br>• gwerthuso cymhwystra, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol;<br>• profi sampl o asedau a ailbrisiwyd yn y flwyddyn i sicrhau bod y sail brisio, data allweddol a thybiaethau a ddefnyddiwyd yn y broses brisio yn rhesymol, a bod yr ailbrisiadau wedi cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol;<br>• profi'r cysoni rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau. |
| **Prisio rhwymedigaethau net cronfa bensiwn**<br>Mae rhwymedigaethau cronfa bensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) fel yr adlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrif materol. Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun i lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i fân addasiadau yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth ei gyfrifo. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;<br>• asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;<br>• asesu cywirdeb a chyflawnrwydd y wybodaeth a ddarperir gan y Cyngor i'r actiwari er mwyn amcangyfrif y rhwymedigaeth; |

| | |
|---|---|
| | • profi cywirdeb rhwymedigaethau net y gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari; ac<br>• asesu pa mor rhesymol yw'r rhagdybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghori (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sydd eu hangen. |
| **Gwargedion Cynllun Pensiwn**<br>Yn dilyn y prisiad ariannu teirblwydd o gronfeydd pensiwn LGPS ar 31 Mawrth 2022, mae Rhestr Ganlyniadau Safon Ryngwladol ar Archwilio 19 y Cyngor gan yr Actiwari yn dangos gwarged.<br>Mae cydnabod gwargedion cronfeydd pensiwn yn gymhleth. Mae angen ystyried y buddiannau economaidd sydd ar gael yn y dyfodol o ran ad-daliadau o'r cynllun, neu ostyngiadau mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw rai o reolau'r cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr wneud isafswm taliadau ariannu i'r cynllun. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• deall proses yr actiwari ar gyfer cyfrifo'r gwarged sy'n cael ei gydnabod ar 31 Mawrth 2023; ac<br>• ystyried a ellir cydnabod y gwarged o dan IFRIC 14. |

# Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Nodaf isod ddyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni fy ngwaith archwilio cyfrifon ac allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 3: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig**

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio Amlinellol 2023 | Mawrth 2023 | Mawrth 2023 |
| Cynllun Archwilio Manwl 2023 | Mis Ebrill i fis Awst 2023 | Awst 2023 |
| Gwaith archwilio datganiadau ariannol<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mis Medi i fis Tachwedd 2023 | Tachwedd 2023 |

# Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig

Nodaf isod fanylion am fy ngwaith archwilio perfformiad a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 4: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig**

| | | |
|---|---|---|
| **Asesu sicrwydd a risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gall fod angen gwaith archwilio pellach yn y blynyddoedd i ddod mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor wrth roi trefniadau cywir ar waith i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Mis Medi 2023 i fis Ionawr 2024 |
| **Adolygiad thematig – cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol** | Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol cynghorau gan gynnwys ffocws ar gamau gweithredu, cynlluniau a threfniadau i bontio bylchau ariannu a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig. | Byddwn yn trafod yr amserlenni ar gyfer prosiectau unigol gyda'r Cyngor ac yn rhoi diweddariadau yn ein hadroddiadau chwarterol ar y Rhaglen Waith a'r Amserlen |
| **Adolygiad thematig – comisiynu a rheoli contractau** | Adolygiad sy'n canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu a rheoli contractau yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Byddwn yn trafod yr amserlenni ar gyfer prosiectau unigol gyda'r Cyngor ac yn rhoi diweddariadau yn ein hadroddiadau chwarterol ar y Rhaglen Waith a'r Amserlen |
| **Gwastraff ac ailgylchu** | Adolygiad yn canolbwyntio ar gynlluniau'r Cyngor i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol. | Byddwn yn trafod yr amserlenni ar gyfer prosiectau unigol gyda'r Cyngor ac yn rhoi diweddariadau yn ein hadroddiadau chwarterol ar y Rhaglen Waith a'r Amserlen |

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen archwilio perfformiad drwy ein diweddariadau rheolaidd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

# Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grant, a swyddogaethau archwilio statudol

## Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grant

Gofynnwyd i mi hefyd gynnal gwaith ardystio ar hawliadau grant Cyngor Gwynedd a fydd, rwy'n rhagweld, yn cynnwys Budd-daliadau Tai, Pensiynau Athrawon ac Ardrethi Annomestig.

## Swyddogaethau archwilio statudol

Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol.  Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Archwilio dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad;
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi ei gymryd i ystyriaeth yn y tabl ffioedd isod.  Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

# Ffi a’r tîm archwilio

Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddais y cynllun ffïoedd ar gyfer blwyddyn 2023-24 fel y cymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.  Mae cynnydd o 4.8% yn fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2023-24, ar gyfer pwysau chwyddiant.  Hefyd, mae cynnydd ychwanegol o 10.2% yn fy ffi archwilio ariannol ar gyfer effaith safon archwilio ddiwygiedig Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 ar fy null archwilio ariannol.  Nodir rhagor o fanylion am y safon archwilio ddiwygiedig a’r hyn y mae’n ei olygu i’r archwiliad yr ymgymeraf ag ef yn **Atodiad 1**.

Rwyf yn amcangyfrif mai cyfanswm eich ffi archwilio fydd £381,197.

**Arddangosyn 5: ffi archwilio**

Mae’r tabl hwn yn nodi’r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2023, yn ôl maes o fewn gwaith archwilio, ochr yn ochr â’r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[2] | Ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---:|---:|
| Archwilio cyfrifon[3] | 215,093 | 187,096 |
| Gwaith archwilio perfformiad[4] | 107,345 | 102,732 |
| Gwaith ardystio grantiau[5] | 55,000-60,000 | 56,673 |
| Gwaith archwilio ariannol arall[6] | 1,259 | 1,225 |
| Cyfanswm y ffi | 381,197 | 347,726 |

Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i’r amlwg.  Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â’r Cyngor yn gyntaf.

[2] Nodiadau: Nid yw’r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw’n cael ei chodi arnoch.

[3] Yn daladwy o fis Tachwedd 2022 hyd fis Hydref 2023.

[4] Yn daladwy o fis Ebrill 2023 hyd fis Mawrth 2024.

[5] Yn daladwy wrth i’r gwaith gael ei wneud.

[6] Yn daladwy o fis Tachwedd 2022 hyd fis Hydref 2023 am waith a wnaed ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a Harbyrau Cyngor Gwynedd.

**Mae ein ffi archwilio ariannol yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:**

- Mae'r canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion papur gwaith disgwyliedig i gefnogi'r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- Ni nodir unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod yr archwiliad, heblaw yr hyn a grynhoir yn y cynllun hwn.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: fy nhîm archwilio lleol**

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Matthew Edwards | Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Archwilio | 029 20 320 566 | matthew.edwards@archwilio.cymru |
| Yvonne Thomas | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | 029 22 677 830 | yvonne.thomas@archwilio.cymru |
| Carwyn Rees | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 029 20 829 375 | carwyn.rees@archwilio.cymru |
| Erin Pollard | Arweinydd Archwilio (Archwilio Ariannol) | 029 20 829 358 | erin.pollard@archwilio.cymru |
| Alan Hughes | Arweinydd Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 029 20 829 349 | alan.hughes@archwilio.cymru |

Mae rhai bygythiadau i annibyniaeth y mae angen i mi eu dwyn i'ch sylw mewn perthynas â'r Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) a'r Arweinwyr Archwilio (Archwilio Ariannol ac Archwilio Perfformiad). Mae gan y tri ohonynt gydnabyddiaethau a/neu deulu a gyflogir gan y Cyngor. O ganlyniad, ni fyddant naill ai'n ymwneud ag unrhyw waith mewn perthynas â'r gwasanaethau perthnasol, neu bydd camau priodol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl yn cael ei reoli.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt.  Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Defnyddiwn fodel tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn.  Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Gwnawn ein gwaith yn ddarostyngedig i graffu annibynnol gan yr Adran Sicrhau Ansawdd* ac mae ein Cadeirydd yn gweithredu fel cyswllt ar ansawdd archwilio i'n Bwrdd.  Am fwy o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2022.



### Ein Pobl

Ffurfir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni'r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwylio ac adolygu



### Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio

Ffurfir yr ail linell sicrwydd gan y polisïau, yr offer, y ddysg a'r datblygiad, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



### Sicrwydd annibynnol

Ffurfir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.

- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi'r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

*Cangen monitro ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yw'r Adran Sicrhau Ansawdd.

* QAD is the quality monitoring arm of ICAEW.

# Atodiad 1

## Newidiadau allweddol i Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 a'r effaith bosibl ar eich sefydliad

| Newid allweddol | Effaith bosibl ar eich sefydliad |
|---|---|
| **Gweithdrefnau adnabod ac asesu risg manylach a mwy helaeth** | Efallai y bydd eich tîm cyllid ac eraill yn eich sefydliad yn cael nifer fwy o ymholiadau gan ein timau archwilio yn ystod y broses o gynllunio'r archwiliad.  Gallai ceisiadau am wybodaeth gynnwys:<br>• gwybodaeth am fodel busnes eich sefydliad a sut mae'n integreiddio'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth (TG);<br>• gwybodaeth am broses asesu risgiau eich sefydliad a sut mae eich sefydliad yn monitro'r system rheoli mewnol;<br>• gwybodaeth fanylach am sut y caiff trafodiadau eu dechrau, eu cofnodi, eu prosesu, a'u hadrodd.  Gallai hyn gynnwys y gallu i gael gafael ar ddogfennaeth ategol fel llawlyfrau polisïau a gweithdrefnau;<br>• trafodaethau manylach â'ch sefydliad i gefnogi asesiad o risg cynhenid y tîm archwilio. |
| **Cael gwell dealltwriaeth o amgylchedd eich sefydliad, yn enwedig mewn cysylltiad â TG** | Efallai y bydd eich sefydliad yn cael mwy o ymholiadau i gynorthwyo'r tîm archwilio i ddeall yr amgylchedd TG. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am:<br>• cymwysiadau TG sy'n berthnasol i adrodd ariannol;<br>• y seilwaith TG ategol (e.e. y rhwydwaith, cronfeydd data);<br>• prosesau TG (e.e. rheoli newidiadau i raglenni, gweithrediadau TG);<br>• y personél TG sy'n ymwneud â'r prosesau TG.<br>Efallai y bydd angen i dimau archwilio brofi'r rheolaethau TG cyffredinol a gallai hyn ei gwneud yn ofynnol cael tystiolaeth archwilio fanylach ar weithredu rheolaethau TG yn eich sefydliad.<br>Ar rai archwiliadau, gallai ein timau archwilio gynnwys arbenigwyr archwilio TG i'w cynorthwyo i wneud eu gwaith. Efallai y bydd angen i'n harchwilwyr TG ymgysylltu ag aelodau o'ch tîm TG nad ydynt wedi bod yn rhan o'r broses archwilio o'r blaen. |

| Newid allweddol | Effaith bosibl ar eich sefydliad |
|---|---|
| **Gofynion uwch yn ymwneud ag arfer amheuaeth broffesiynol** | Gallai ein timau archwilio wneud ymholiadau ychwanegol os ydynt yn nodi gwybodaeth yr ymddengys ei bod yn gwrth-ddweud yr hyn y maent eisoes wedi ei ddysgu yn yr archwiliad. |
| **Mae asesiadau risg yn gallu ehangu'n gyflym, gan ddibynnu ar natur a chymhlethdod y corff a archwilir** | Bydd disgwyliadau'r tîm archwilio ynghylch ffurfioldeb polisïau, gweithdrefnau, prosesau, a systemau eich sefydliad yn dibynnu ar gymhlethdod eich sefydliad. |
| **Gallai timau archwilio wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth gynnal eu harchwiliad** | Gallai ein timau archwilio wneud defnydd o offer awtomataidd a thechnegau megis dadansoddi data wrth gynnal eu harchwiliad. Gallai ein timau ofyn am wybodaeth wahanol neu wybodaeth mewn fformat gwahanol i'r archwiliadau blaenorol fel y gallant gyflawni eu gweithdrefnau archwilio. |

Drwy ein gwaith Arfer Da, rydym yn rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio i gefnogi ein hamcanion i sicrhau, esbonio ac ysbrydoli.

Mae ein cylchlythyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi yn rheolaidd ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arferion da a digwyddiadau, y gellir eu haddasu i'ch dewisiadau.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith Arfer Da cliciwch yma.

Cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr yma.

Archwilio Cymru
Audit Wales


Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.  We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.